

"Beth dw i fod i'w wneud?"
Yn Byw heb unrhyw Hawl i
Gyllid Cyhoeddus yn
Nghenedl Noddfa

SEFYDLIAD
bevan
FOUNDATION

Chwefror 2024



Gwybodaeth am Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan ydy melin drafod fwyaf dylanwadol Cymru. Rydyn ni'n creu mewnwelediadau, syniadau ac effaith sy'n helpu i ddod â thlodi ac anghydraddoldeb i ben. Rydyn ni'n annibynnol, yn wybodus a chynhwysol ym mhopeth a wnawn.

Fel elusen gofrestrdig annibynnol, mae Sefydliad Bevan yn dibynnu ar haelioni unigolion a sefydliadau i wneud ei waith.

Diolchiadau

Mae'r ddogfen hon yn rhan o brosiect a ariennir gan Arian Y Loteri Cenedlaethol i Bawb ac yn rhan o brosiect ehangach o waith a ariennir gan Fenter Cyfiawnder Gyda'n Gilydd (Justice Together Initiative). Hoffai Sefydliad Bevan hefyd ddiolch am gefnogaeth y ddau gorff ariannu am eu cefnogaeth. Rydyn ni hefyd yn ddiolchgar am gefnogaeth Sefydliad Joseph Rowntree.



Y modd y gallwch chi helpu

Mae cannoedd o bobl a sefydliadau ar draws Cymru yn galluogi Sefydliad Bevan i godi llais yn erbyn tlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Fydden ni ddim yn bodoli heb eu cymorth.

Er mwyn gwneud Cymru yn genedl ffyniannus i bawb, lle gall pawb wireddu eu potensial waeth pwy ydyn nhw na lle maen nhw'n byw, ymunwch â'n cymuned o gefnogwyr.

Mae eich cymorth chi ac eraill yn gwneud gwahaniaeth i ni a gwahaniaeth i Gymru.

Cewch ragor o wybodaeth ar: <https://www.bevanfoundation.org/support-us/individuals/> neu anfon e-bost at info@bevanfoundation.org i gael gwybod yr hyn y gallwch chi ei wneud

Darlun clawr: [Leon eIIDOT](#) ar [Unsplash](#)

Fersiwn 2: Tudalen 63 wedi diwygio er moyr adlewyrchu rôl CLILC yn well.

Hawlfraint Sefydliad Bevan
Sefydliad Bevan, 145a Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DP info@bevanfoundation.org
www.bevanfoundation.org

Rhif fel elusen gofrestrdig: 1104191 Cwmni cofrestrdig y cwmni yng Nghymru - rhif: 4175018

Cynnwys

Crynodeb	5
1. Rhagarweiniad	
1.1 Y cyfyngiad ar hawl rhai i gyllid cyhoeddus	8
1.2 Argyfwng costau byw a'i effaith ar bobl na all hawlio cyllid cyhoeddus (NRPF).....	11
1.3 Ein hymchwil	11
2. Cymorth a dyletswyddau awdurdodau lleol	13
2.1 Dyletswyddau awdurdodau lleol yn ôl y gyfraith	13
2.2 Canllawiau NRPF Llywodraeth Cymru	14
2.3 Nodi graddfa a rhychwant cymorth awdurdod lleol	15
2.4 Costau cymorth NRPF i awdurdodau lleol	16
3. Canfyddiadau: awdurdodau lleol	17
3.1 Does dim un awdurdod lleol yng Nghymru wedi gweithredu Llwybr NRDF Lleol	17
3.2 Dim ond 32% o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n darparu neu'n comisiynu hyfforddiant NRPF ar gyfer staff	19
3.3 Mae staff awdurdod lleol yn gofyn am ragor o ganllawiau a hyfforddiant	21
3.4 Dau awdurdodau lleol yn unig yng Nghymru sy'n casglu data ar y cymorth a roddir i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus	22
3.5 Roedd y cyferbyniad rhwng canfyddiadau yn amlwg ar wahanol lefelau o fewn yr un awdurdod lleol	24
3.6 Mae diffyg dealltwriaeth o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru	25
3.7 Mae diffyg cysondeb rhwng ac o fewn awdurdodau lleol yn eu dulliau o fynd ati i delio â NRPF	26
3.8 Mae rhai awdurdodau lleol ac adrannau yn gwneud ymdrech ar y cyd i gynorthwyo pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus	27
3.9 Mae angen i awdurdod lleol gael perthynas waith well gyda sefydliadau arbenigol a darparwyr cyngor i fewnfudwyr	27
4. Canfyddiadau, cynrychiolaeth cyfreithiol, cyngor a gwybodaeth	30
4.1 Does dim digon o gyngor a gwybodaeth am hawliau a hawliadau pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus yng Nghymru	30
4.2 Mae angen cymorth y gellir ymddiried ynddo a chymorth yn y gymuned ar frys er mwyn hwyluso mynediad i wasanaethau	32
4.3 Mae pobl ag amod NRPF angen cymorth a chael eu gwarchod i arfer eu hawliau a'u hawliadau	32
4.4 Mae'r argyfwng ym maes cyngor cyfreithiol mewnfudo yn faen tramgwydd i lywio llwybr allan o dlodi	32
5. Prydau ysgol am ddim yng Nghymru	35

5.1	Pwysigrwydd prydau ysgol am ddim	35
5.2	Cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru	36
5.3	Cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim ar draws y DU	37
5.4	Y berthynas rhwng Grant Hanfodion Ysgol a phrydau ysgol am ddim	38
6.	Canfyddiadau: prydau ysgol am ddim	39
6.1	Dydy gwefannau awdurdodau lleol ddim yn cynnig gwybodaeth glir am brydau ysgol am ddim ar gyfer pobl nad oes ganddyn nhw hawl i gyllid cyhoeddus	39
6.2	Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yng Nghymru yn eithrio plant rhag derbyn prydau ysgol am ddim ar sail eu statws mewnfudo rhag gwneud cais am brydau ysgol am ddim	40
6.3	Mae systemau ar gyfer gwneud cais am brydau ysgol am ddim yn eithrio pobl nad oes ganddyn nhw hawl i gyllid cyhoeddus hyd yn oed pan fydd y prydau hynny ar gael	41
6.4	Mae diffyg gwybodaeth a phryderon am statws mewnfudo yn rhwystro llawer o bobl gydag amod NRPF rhag gwneud cais am brydau ysgol am ddim.....	41
6.5	Mae plant a effeithir gan NRPF yn cael eu heithrio rhag cyrchu'r Grant Hanfodion Ysgol	42
7.	Myfyrwyr Rhyngwladol	44
7.1	Myfyrwyr Rhyngwladol yng Nghymru	44
8.	Canfyddiadau: Myfyrwyr Rhyngwladol	45
8.1	Mae myfyrwyr rhyngwladol yn wynebu costau uchel ac annisgwyl allai yrru rhai i fod mewn angen	45
8.2	Mae myfyrwyr rhyngwladol yn wynebu sialensiau mawr wrth chwilio am lety, yn enwedig i deuluoedd	47
8.3	Mae diffyg llety addas yn effeithio'n ddifrifol ar allu myfyrwyr rhyngwladol i gynnal eu hunain yn ariannol	49
8.4	Gall gofynion ariannol myfyrwyr rhyngwladol eu heithrio rhag cymorth hanfodol	50
8.5	Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae poblogaeth myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru wedi newid	51
8.6	Mae angen l'r broses recriwtio myfyrwyr rhyngwladol fod wedi'i chynllunio'n dda ac yn hyrwyddo croeso, integreiddio a chymorth	52
8.7	Dydy rhai myfyrwyr rhyngwladol ddim yn teimlo bod eu prifysgolion yn eu cefnogi	52
8.8	Mae rhwystrau at waith yn atal myfyrwyr rhyngwladol rhag defnyddio eu cymwysterau a chyfrannu at y gweithlu yng Nghymru	54
9.	Casgliad	56
10.	Argymhellion – cymorth awdurdod lleol	57
10.1	Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol	57
10.2	Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru	58
10.3	Argymhellion ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	59
11.	Argymhellion: cynrychiolwyr cyfreithiol, gwybodaeth a chyngor	60
11.1	Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru	60

11.2	Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol	60
12.	Argymhellion: prydau ysgol am ddim	61
12.1	Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru	61
12.2	Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol	61
13.	Argymhellion: myfyrwyr rhyngwladol	62
13.1	Argymhellion ar gyfer prifysgolion.....	62
13.2	Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru	62

Felly i ni, sy'n deulu o bump, maen nhw'n rhoi fisa pum mlynedd i fy ngŵr, a phob un ohonon ni'n mynd i orfod talu bron i £5,000, mae hynny'n golygu tua [£20,000]. Ar gyfer gordal iechyd yn unig. ... Mae swyddi yn dod i'r amlwg sy'n £25,000 yr un. [Mae cost y gordal iechyd] bron cyfwerth â'ch incwm blynyddol. Maen nhw'n disgwyl i chi godi'r arian hwnnw a'i drosglwyddo [y cyfan] gyda'i gilydd. Mae hyn ar gyfer y gordal iechyd yn unig a heb ychwanegu ffioedd y fisa.

Felly, os mai dyna'ch incwm blynyddol ac rydych chi'n tynnu'r dreth, a rhaid i chi dynnu'r biliau – beth sydd yna ar ôl i fyw arno? Mae argyfwng costau byw ar hyn o bryd. Beth dw i fod i'w wneud?

Cyfranogwr yn yr Ymchwil (dibynnydd, ar fisa graddedig)

Crynodeb

Mae'r nifer o bobl yng Nghymru y mae eu statws mewnfudo yn eu gwahardd rhag derbyn cyllid cyhoeddus yn cynyddu. Mae amod NRPF (Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus) yn diddymu'r modd o gyrchu'r mwyafrif o fudd-daliadau llesiant y gall pobl eraill ddibynnu arnyn nhw pan fyddan nhw mewn angen. Mae NRPF yn effeithio ar y mwyafrif o fewnfudwyr heb statws ymsefydlu a'u gosod nhw a'u teuluoedd mewn sefyllfa ansicr ac ansefydlog.

Mae gwir risg pan fydd pobl heb gyllid cyhoeddus yn wynebu amgylchiadau annisgwyl neu argyfwng (e.e. marwolaeth yn y teulu, colli swydd, neu godiad sydyn mewn costau byw'r teulu) na fydd ganddyn nhw gymorth i ddelio â hyn.

I lawer, y canlyniad ydy eu bod yn cael trafferth hirdymor gyda chostau byw dyddiol, a hynny yn cynyddu tlodi plant, salwch a chael eu hecsbloetio. I rai, mae anallu i oresgyn sialens ariannol yn arwain at ddyledion, methu â fforddio bwyd neu ddigartrefedd, gyda chanlyniadau difrifol ar gyfer iechyd a llesiant. Â'u hawliau wedi'u cyfyngu a heb lwybr amlwg gweladwy allan, gall tlodi a digartrefedd fod yn anochel.

Gall cymorth amserol fod o gymorth i osgoi tlodi a'r costau ac economaidd sy'n ei ddilyn. Er bod angen dull amlasiantaethol o fynd ati, gall awdurdodau lleol chwarae rôl allweddol wrth helpu pobl i ddod o hyd i lwybr allan o dlodi. Hefyd, mae ganddyn nhw ddyletswyddau cyfreithiol penodol i gynorthwyo pobl mewn angen. Am y rheswm hwn, ffocws yr adroddiad hwn ydy awdurdodau lleol a'u perthynas gydag asiantaethau eraill.

Canfu ein hadroddiad nad oes gan y mwyafrif o awdurdodau lleol yng Nghymru ymateb cydynol nac effeithiol i NRPF. Mae angen dybryd i wella'r cymorth a gwasanaethau er mwyn cynyddu hyfforddiant a datblygu adnoddau ar gyfer staff ac i wella ac ehangu dealltwriaeth o hawliau pobl. Ar adegau, gweinyddir cynlluniau cymorth sydd heb fod yn gyllid cyhoeddus mewn modd sy'n eithrio pobl gydag amod NRPF rhag gwneud cais. Prin oedd yr ymglymiad strategol a welson ni oedd wedi'i anelu at atal tlodi neu fater ehangach NRPF.

Mae hefyd bylchau mewn gwybodaeth a data ac mae hyn yn fater o bryder. Ni all y mwyafrif o awdurdodau lleol ddangos faint o gymorth neu'r math o gymorth y maen nhw'n ei gynni i ddiwallu eu dyletswyddau statudol, i oedolion a phlant ag anghenion gofal a chymorth a effeithir gan amod NRPF. Yn absenoldeb polisïau mewnlol a chanllawiau ymarferol, doedd hi ddim yn bosibl i ni nodi a ydy asesiadau o'r cymorth hwn yn wybodus a phriodol. Doedd hi ddim yn bosibl i ni gadarnhau nifer y bobl gyda NRPF y gwrthodwyd cymorth iddyn nhw ac ym mha amgylchiadau ac a oedd ffynonellau amgen o gymorth yn cael eu nodi a'u harwyddo yn gyson.

Gwelwyd cynnydd pendant yn nifer y bobl gydag amod NRPF ers 2020. Bydd y Ddeddf Mewnfudo Anghyfreithlon eto'n cynyddu nifer y bobl heb fynediad i gyllid cyhoeddus na'r gallu i weithio, gan newid amgylchiadau pobl sy'n ceisio nodedd yng Nghymru yn sylweddol. Mae'n hanfodol bod Cymru'n datblygu ymateb strategol a rhagweithiol i NRPF sydd wedi'i seilio ar anghenion a phrofiadau pobl sy'n cael eu heffeithio gan y cyfyngiad. Mae hyn yn ymestyn tu hwn i awdurdodau lleol, ond maen nhw'n chwarae rôl allweddol a dylen nhw fod yn arwain y ffordd wrth atal tlodi a chyni ac wrth helpu pobl i symud ymlaen i fywyd cynladwy ac annibynnol.

Canfyddiadau allweddol

- Dim ond 32% o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n darparu neu gomisiynu hyfforddiant NRPF ar gyfer staff
- Does dim un awdurdod lleol yng Nghymru wedi gweithredu Llwybr NRPF lleol.
- Mae angen rhagor o wybodaeth, hyfforddiant a chanllawiau a dealltwriaeth am NRPF ar staff awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Mae dulliau awdurdodau lleol i ddelio â NRPF yn anghyson ac mae diffyg polisi, strategaeth a chanllawiau ymarferol.
- Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yng Nghymru yn eithrio plant rhag derbyn prydau ysgol am ddim a rhag Grant Hanfodion Ysgol oherwydd eu statws mewnfudo.
- Mae gan awdurdodau lleol sy'n cynnig prydau ysgol am ddim i blant a effeithir gan NRPF ffurflenni cais a phrosesau asesu sy'n ei gwneud hi'n amhosibl i rieni wneud cais.
- Mae angen dybryd ar bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus i gael cymorth a chael eu gwarchod i arfer eu hawliau a'u hawliadau.
- Mae'r argyfwng ym maes cyngor cyfreithiol ymfudo a chynrychiolaeth yn profi i fod yn rhwystr i lywio llwybrau allan o dlodi..

Yn ystod ein prosiect, siaradon ni gyda myfyrwyr rhyngwladol oedd yn defnyddio banciau bwyd. Datgelodd y sgysiau hyn faterion penodol o bryder ar gyfer y grŵp hwn. Cawson ni'r canlynol:

- Fod Myfyrwyr Rhyngwladol yn wynebu costau mawr ac annisgwyl a hynny'n efallai'n gyrru rhai i mewn i dlodi.
- Gallai diffyg llety addas effeithio ar allu myfyrwyr rhyngwladol i gynnal eu hunain yn ariannol.
- Gallai rhwystrau rhag cael gweithio atal nifer o fyfyrwyr rhyngwladol ddefnyddio eu cymwysterau a chyfrannu at y gweithlu yng Nghymru.

Argymhellion allweddol

- Dylai'r holl awdurdodau lleol ddatblygu llwybr NRPF lleol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac ar y cyd â sefydliadau arbenigol, gwasanaethau lleol a phobl â phrofiad o NRPF. Dylai'r llwybrau gynnwys yr holl adrannau a'r gwasanaethau perthnasol, gan ffocysu ar ddatrysiadau clir, ymarferol, darparu canllawiau i staff, tynnu sylw at adnoddau lleol a datgan polisiau a dulliau'r awdurdod lleol o fynd ati i gynorthwyo pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF).
- Dylai awdurdodau lleol gynnig rhaglen hyfforddiant gynlluniedig a chynhwysfawr ar gyfer staff ymhob rôl perthnasol.
- Dylai awdurdodau lleol gyflogi arweinwyr arbenigol NRPF a dylai awdurdodau mwy ystyried datblygu timau NRPF i ddatblygu arbenigedd a chynnig cyngor a chyfarwyddyd i staff eraill.
- Dylai awdurdodau lleol ddatblygu perthynas waith gref gyda darparwyr cyfreithiol ac asiantaethau cymorth y trydydd sector o fewn eu hardal leol.

- Dylai awdurdodau lleol ariannu a chomisiynu cyngor arbenigol ar ymfudo a gwasanaethau cyfreithiol er mwyn helpu pobl gydag amod NRPF a chynnig cyngor i staff y cyngor.
- Dylai awdurdodau lleol ddatblygu fforymau rhanbarthol er mwyn rhannu arbenigedd a gwybodaeth am NRPF.
- Dylai Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP) sefydlu a hwyluso fforwm NRPF sy'n cynnwys y 22 awdurdod lleol, asiantaethau statudol allweddol a sefydliadau perthnasol o'r trydydd sector.
- Dylai Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Awdurdod Lleol Cymru gydweithio gyda sefydliadau arbenigol i baratoi'r newyddion diweddaraf yn gyson a chylchlythyrau ar gyfer awdurdodau lleol, gan rannu canllawiau a chyngor ar hawliadau NRPF, dyletswyddau awdurdod lleol, diweddariadau cyfreithiol ac arferion da.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid i wasanaethau cyfreithiol ymfudo a gwasanaethau cyngor eraill sy'n cynnig help a chefnogaeth i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus
- Dylai awdurdodau lleol arbenigol weithio gydag asiantaethau arbenigol i gynhyrchu gwybodaeth glir ac ymarferol ac adnoddau cyfarwyddo ar gyfer pobl a effeithir gan NRPF.
- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cymhwyster awtomatig i dderbyn prydau ysgol am ddim i bob plentyn i deuluoedd isel eu hincwm waeth beth fo'u statws ymfudo.
- Dylai awdurdodau lleol ddatblygu prosesau hygyrch a chyfeillgar i NRPF i wneud cais am brydau ysgol am ddim a'r Grant Hanfodion Ysgol (SEG).

Argymhellion Allweddol yn gysylltiedig â Myfyrwyr Rhyngwladol:

- Dylai prifysgolion gynllunio recriwtio Myfyrwyr Rhyngwladol yn ofalus ac yn strategol, cynllunio fyddai'n cynnwys trafod â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, landlordiaid, cyflogwyr, sefydliadau'r trydydd sector a chymunedau.
- Dylai prifysgolion ddarparu gwybodaeth glir, tryloyw ac ymarferol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol sy'n ystyried astudio yng Nghymru.
- Dylai prifysgolion ddarparu llety teuluol ar gyfer myfyrwyr, gweithio gyda landlordiaid lleol a chynorthwyo myfyrwyr rhyngwladol i ddod o hyd i lety.
- Dylai prifysgolion ddatblygu fforymau gyda chyflogwyr lleol i wella cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr ac i ddatblygu llwybrau cyflogaeth ar gyfer graddedigion.
- Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo cyflogi myfyrwyr rhyngwladol sydd wedi astudio yng Nghymru, annog a chynghori cyflogwyr i fod yn noddwyr fisa, hyrwyddo nawdd fisa o fewn awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol, gweithio gyda phrifysgolion i ddatblygu llwybrau i gyflogaeth ar gyfer myfyrwyr ac ystyried y modd y gellir trosglwyddo cymwysterau i rolau swyddi yn y DU.

1. Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried ymatebion awdurdodau lleol i'r amod Dim Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF) yng Nghymru. Mae NRPF yn gosod y bobl a'r teuluoedd y mae'n effeithio arnyh nhw mewn sefyllfa ansicr. Gosodir yr amod ar y mwyafrif o ymfudwyr yn y DU sydd heb statws preswylwyr sefydlog. Mae'n rhwystro pobl rhag cyrchu nifer o fudd-daliadau prif ffrwd

- mynediad y mae eraill yn gallu dibynnu arnyn nhw ar adeg o angen. Mae perygl na fydd pobl a effeithir gan NRPF sy'n wynebu amgylchiadau annisgwyl neu argyfwng – marwolaeth yn y teulu, colli swydd neu gynydd yng nghostau'r teulu - yn gallu dod o hyd i gymorth neu'n gallu cyrchu cymorth i'w helpu.

I lawer, y canlyniad fydd brwydr barhaus hirdymor yn erbyn môr o gostau byw, gan weithio'n galed i gael dau ben llinyn ynghyd. I rai, mae diffyg help i oresgyn sialens ariannol yn arwain at ddyledion, methu â fforddio hanfodion byw neu golli llety a hynny'n effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant. Gyda chyfyngiadau ar eu hawliau a heb lwybr clir, mae'n tloedi a digartrefedd yn anochel.

Gall cymorth amserol fod o gymorth i osgoi tloedi a'r costau economaidd sy'n ei ddilyn. Er bod angen dull amlasiantaethol o fynd ati, gall, awdurdodau lleol chwarae rôl allweddol wrth helpu pobl i ddod o hyd i lwybr allan o dloedi. Hefyd, mae ganddyn nhw ddyletswyddau cyfreithiol penodol i gynorthwyo pobl mewn angen. Am y rheswm hwn, ffocws yr adroddiad hwn ydy awdurdodau lleol a'u perthynas gydag asiantaethau eraill.

1.1 Y cyfyngiad ar hawl rhai i gael cyllid cyhoeddus

Amod ydy NRPF sy'n cyfyngu ar fynediad i fudd-daliadau a elwir yn 'gyllid cyhoeddus' sy'n atal pobl rhag cyrchu budd-daliadau lles hanfodol. Gellir atodi'r amod ar fisa unigolyn neu ei ddefnyddio'n awtomatig pan fydd rhywun 'dan reolaeth mewnfudo'.

Mae amod y NRPF yn cyfyngu ar y gallu i gyrchu'r mwyafrif o fudd-daliadau prif ffrwd megis Credyd Cynhwysol, lwfans anabledd, budd-dal plant a budd-dal tai¹. Mae hyn yn cynnwys budd-daliadau a luniwyd i ategu at incwm isel pobl sydd mewn gwaith. Dydy pobl dan reolaeth mewnfudo ddim yn gymwys ar gyfer llety awdurdod tai lleol². Mae'r cyfyngiad hwn hefyd yn atal pobl rhag cyrchu taliadau hanfodol ac i ddarparu help dros dro gyda chostau byw, megis Gostyngiad Cartrefi Cynnes, Taliadau Tanwydd Gaeaf, Taliadau Tywydd Oer.

Mae'r rheolau cymhleth o ran NRPF a chynllun y system les yn golygu y gall statws unigolyn effeithio ar yr holl deulu, hyd yn oed os byddai hawl gan unigolyn arall i dderbyn budd-dal. Er enghraifft os bydd unigolyn yn hawlio Credyd Cynhwysol sy'n cynnwys swm ar gyfer partner neu ddibynnydd arall, ni fydd hawl gan y cyfryw unigolyn dderbyn y swm hwn os yw'n berthnasol i aelod o'r teulu sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus. Caiff plant, waeth beth fo'u statws ymfudo, gan gynnwys y rhai sy'n wladolion Prydeinig, eu heithrio o Fudd-dal Plant os ydyn nhw'n byw gydag unig riant heb hawl i gyllid cyhoeddus.

Mae mwyafrif y bobl sy'n byw o dan gyfyngiad NRPF mewn sefyllfaoedd ariannol sicr ac ni fydd angen cyllid cyhoeddus arnyn nhw. Fel pawbarall, mae pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus hefyd mewn perygl o golli swydd, cyflogau isel, costau annisgwyl a salwch meddwl a chorfforol sy'n eu hatal rhag gweithio. Mae pobl sy'n cael eu heffeithio gan NRPF hefyd yn cael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw ond does dim mynediad ganddyn nhw i'r hyn a ystyrir yn gyffredinol yn rhwyd ddiogelwch.

Cafwyd cynnydd mawr ers 2020 yn nifer y bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus. Amcangyfrifir bod gan tua 2.6 miliwn o bobl yn y DU fisa yn cynnwys NRPF ar ddiwedd 2022³. Dydy hyn ddim yn cynnwys pobl gyda statws ymfudo afreolaidd na all gyrchu cyllid cyhoeddus chwaith. Mae'r nifer o bobl yn grŵp olaf hwn yn debygol o gynyddu'n sylweddol os gweithredir darpariaethau o fewn y Ddeddf Mewnfudo Anghyfreithlon i wahardd pobl sy'n cyrraedd drwy

lwybrau afreolaidd rhag ceisio hawlio lloches.

Y Cyd-destun Cymreig

Mae'r cyfyngiad NRPF yn amod fisa a ddefnyddir o dan gyfraith mewnfudo'r DU. Mae'r grym i ddeddfu a newid deddf fel hyn yn nwylo Llywodraeth y DU. Er na all Llywodraeth Cymru ddeddfu ar fewnfudo a materion ceisio lloches, mae sgôp o fewn pwerau datganoledig i liniar'u'r niwed i gymunedau, teuluoedd ac unigolion yng Nghymru. Mae hyn yn gofyn am wybodaeth gywir cyfredol am ymglymiad gydag asiantaethau'r trydydd sector a gwasanaethau statudol a'r parodrwydd i weithredu camau dewr a phendant.

Un o egwyddorion allweddol Cymru: Cenedl Noddfa ydy cydnabod mai pobl ydy'r flaenoriaeth

⁴

yn hytrach na nodi pobl yn ôl eu statws mewnfudo. Mae ein hymchwil yn dangos bod angen ymdrechion cyson cyn y gellir gwireddu'r egwyddor hon.

Pwy sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF)?

Mae nodi pwy sydd â chyfyngiad NRPF, a phwy sydd ddim, yn gymhleth iawn. Yn yr un modd, mae nodi'r hyn ydy 'cyllid cyhoeddus' yn arwain at ddrysych a gwadu hawliau. Enghraifft o'r cymhlethdod hwn – mae'r Swyddfa Gartref wedi cynhyrchu llyfryn ar gyfer ei staff sy'n amlinellu hawliadau a chyfyngiadau o ran cyllid cyhoeddus ac i bwy y dylid gwneud cais ⁵. Mae 52 tudalen yn y ddogfen hon.

Dydy'r amod NRPF ddim yn berthnasol i bobl sydd â chaniatâd i aros neu sydd â statws preswlydd sefydlog yn y DU, heblaw eu bod yn cael caniatâd i aros fel y perthynas oedolyn dibynnol. Nid yw'n berthnasol i grwpiau arbennig o ymfudwyr megis y rhai â statws ffoaduriaid, Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches (UASC), y rhai sydd wedi cael caniatâd i aros ar sail y ffaith eu bod wedi cael eu masnachu, a phobl sydd wedi derbyn Consesiwn Dioddefwyr o Gam-drin Domestig (Consesiwn Trais Domestig Amddifadrwydd gynt) ⁶.

Cymhwysir Dim Hawl i Gyllid Cyhoeddus i'r rhai sydd:

- Â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU gydag amod NRPF.
- Â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU yn amodol ar gynhaliath
- Â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU yn amodol ar apêl ymfudo sydd yn yr arfaeth.
- Y mae gofyn iddyn nhw gael caniatâd i aros yn y DU ond heb ei gael ⁷.

Gosodir amod NRPF fel mater o drefn ar bobl sy'n ymweld â'r DU, yn astudio ac yn gweithio yn y DU ac wedi cael caniatâd i aros am gyfnod dros dro. Gall hefyd gael i ddefnyddio pan fydd pobl ar y llwybr i ennill statws preswlydd sefydlog megis llwybr teuluol (megis partner neu wŷr neu wraig dinesydd Prydeinig neu rywun â statws preswlydd sefydlog, neu riant plentyn Prydeinig neu blentyn sydd wedi byw yn y DU am saith mlynedd). Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r amod NRPF yn ymestyn i bobl sydd yn breswylwyr sefydlog neu ar y llwybr i fod yn breswlydd sefydlog yn y DU ac ar oedolion a phlant Prydeinig.

Cyfyngir pobl ar lwybrau eraill i fod yn breswylwyr sefydlog megis llwybr Gwladolyn Prydeinig Hong Kong (Tramor), a'r rhai sy'n gwneud cais ar sail Bywyd Preifat. Mae'n gymwys yn awtomatig ar gyfer ceiswyr lloches sydd wedi disbyddu eu hawliau apêl ar ôl cais aflwyddiannus am loches a'r rhai heb eu cofnodi. Ni all pobl ar gymorth lloches gyrchu budd-daliadau prif ffrwd. Gwaherddir Dinasyddion Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) heb wneud cais am Gynllun Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) hyd yn hyn rhag gyrchu cyllid cyhoeddus tra efallai y gallai'r rhai â statws cyn sefydlu gyrchu cyllid cyhoeddus ond angen arddangos hawl cymwys i breswylwyr.

Budd-daliadau y gall pobl gyda NRPF eu gyrchu

Mae rhai budd-daliadau y gall unigolyn cymwys gydag amod NRPF eu gyrchu. Os na restrir y budd-dal yn Adran 115 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999 neu baragraff 6 o Reolau Mewnfudo, yna at ddibenion mewnfudo nid cyllid cyhoeddus ydy hyn. Mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol. Ymhlith enghreifftiau eraill mae'r canlynol:

- Tâl Mamolaeth Statudol
- Budd-dal Profedigaeth
- Disgownt Treth Cyngor ar gyfer Unigolyn Sengl
- Lwfans Cynhالياeth Plant
- Lwfans Gwarchodwyr

Yng Nghymru, ceir ystod o fudd-daliadau a gwasanaethau datganoledig sy'n ategu System Nawdd Cymdeithasol y DU⁸. Dydy rhai o'r budd-daliadau neu gynlluniau cymorth a ddatganolir i Gymru ddim yn gyllid cyhoeddus at ddibenion mewnfudo a gall fod yn ffynhonnell hanfodol o gymorth atodol. Mae'r canlynol ar gael i bob grŵp neu rai o'r grwpiau o bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus yng Nghymru (ar yr amod eu bod yn diwallu meini prawf eraill cymhwyster).

- Prydau ysgol am ddim
- Brechwastau am ddim mewn ysgolion cynradd
- Grant Hanfodion Ysgol
- Cronfa cymorth dewisol (elfen argyfwng yn unig)
- Gofal plant ar gyfer plant tair a phedair oed
- Lwfans Cynhالياeth Addysg (LCA/EMA)
- Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl

1.2 Argyfwng costau byw a'i effaith ar bobl gydag amod NRPF

Mae argyfwng costau byw wedi effeithio ar bobl ar draws y wlad, ond mae'r cynnydd mewn biliau ynni a phrisiau bwyd wedi cael llawer mwy o effaith ar deuluoedd isel eu hincwm. Canfu ymchwil blaenorol Sefydliad Bevan fod 46% o denantiaid tai cymdeithasol yn nodi y bu rhaid iddyn nhw dorri nôl ar fwyd iddyn nhw eu hunain neu hepgor prydau bwyd yn ystod y tri mis yn arwain at Ionawr 2023⁹. Cwtogodd 44% o bobl ar Gredyd Cynhwysol a 36% o bobl

ar fudd-daliadau etifeddol ar faint eu prydau bwyd neu hepgor prydau bwyd a tra bod 17% ac 11 % yn eu tro wedi ymweld â banc bwyd¹⁰.

Mae teuluoedd isel eu hincwm a fyddai'n gymwys ar gyfer tai cymdeithasol a chredyd cynhwysol heblaw am amodau NRPF, yn fwy tebygol o ddiodeff effeithiau argyfwng costau byw a chael eu heithrio o'r cymorth ariannol a allai helpu gyda'r costau cynyddol. Mae felly, hyd yn oed yn fwy hanfodol bod pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF) yn cael mynediad haws i gynlluniau datganoledig o gymorth sydd ddim yn cael eu dynodi fel cyllid cyhoeddus.

1.3 Ein hymchwil

Nod sylfaenol ein hymchwil oedd ystyried cymorth awdurdod lleol ar gyfer pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus yng Nghymru. Ein bwriad oedd dynodi dulliau ymarferol o gynnig cymorth a gwella mynediad i wasanaethau hanfodol. Ystyriwyd y modd y mae gwahanol awdurdodau lleol yn cynorthwyo pobl sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus, pa mor agos maen nhw'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru¹¹, a'r sialensiau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gynnig cymorth. Hefyd, siaradon ni â phobl â phrofiad o gael eu gwahardd rhag derbyn cyllid cyhoeddus, er mwyn bod yn sail i'n datrysiadau. Cynhaliwyd yr ymchwil dros chwe mis rhwng mis Mai a mis Hydref 2023.

Ein nod oedd nodi pa gymorth roedd awdurdodau lleol yn ei gynnig i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus o fewn a thu allan i'w dyletswyddau statudol i ddarparu gofal a chymorth. Tra'n cydnabod y cyfyngiadau o weithredu o fewn deddf mewnfudo y DU, fe wnaethon ni ystyried y cymorth a'r datrysiadau y gellir eu cynnig yng nghyd-destun y grymoedd datganoledig.

Dosbarthon ni arolygon i dros 100 o aelodau o fewn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cynghorwyr, rheolwyr, gweithwyr cymdeithasol a staff rheng flaen eraill mewn timoedd ar draws maes addysg, gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion, gwasanaethau tai a gwybodaeth. Derbyniion ni 21 o ymatebion gan 9 awdurdod lleol gwahanol. Cyflwynon ni geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i 21 awdurdod lleol (ar ôl derbyn y wybodaeth berthnasol yn uniongyrchol oddi wrth un awdurdod lleol cyn cyhoeddi ceisiadau am Ryddid Gwybodaeth). Hefyd, cynhalion ni gyfweiliadau gydag arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau, gwirio'r wybodaeth a roddwyd i'r cyhoedd a chysylltu gydag awdurdodau lleol pan roedd angen eglurhad.

Er mwyn cael dealltwriaeth ehangach o effeithiau NRPF ac argyfwng costau byw, siaradon ni â phobl heb hawl i gyllid cyhoeddus nad oedden nhw'n derbyn cymorth gan awdurdodau lleol ond yn cyrchu ffurfiau eraill o gymorth megis banciau bwyd. Siaradon ni hefyd â mudiadau oedd yn darparu'r cymorth hwn. Doedd amserlen y prosiect ddim yn caniatáu ymglymiad ystyrlon gyda phobl oedd yn byw mewn tlodi neu bobl gydag anghenion cymhleth. Gallai ymchwil cenedlaethol y DU a gynhelir gan COMPAS¹² i mewn i gymorth awdurdod lleol ar gyfer mudwyr sy'n byw mewn tlodi neu mewn perygl o fyw mewn tlodi ddarparu gwybodaeth bellach am brofiadau'r garfan hon o bobl yng Nghymru a chynnig cyd-destun defnyddiol o ran y DU gyfan.

Roedd yn sialens i gyrraedd pobl yng Ngogledd Cymru a Gorllewin Cymru, lle ceir llai o asiantaethau cymorth arbenigol a phoblogaethau llai o fudwyr.

Nododd yr ymchwil nifer o feysydd yng Nghymru lle mae angen gwaith i wella'r cymorth a'r

gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus er mwyn gwella deall hawliau pobl yn well. Cawson ni, lawer rhy aml, mai prin oedd y dystiolaeth o ymglymiad i atal tlodi neu'r broblem ehangach o NRPF. Nodon ni hefyd fod bylchau sylweddol yn y data. Ni dderbynion ni er enghraifft, unrhyw ddata gan awdurdodau lleol i'n galluogi i nodi faint neu'r math o gymorth maen nhw'n ei ddarparu i gyflawni eu dyletswyddau statudol i bobl gydag anghenion gofal a chymorth ac sydd heb yr hawl i gyllid cyhoeddus. Yn absenoldeb polisïau mewnol a chanllawiau ymarferol, doedd hi ddim yn bosibl i ni gadarnhau a oedd asesiadau'r o'r cymorth hwn yn wybodus a phriodol. Nid oedd hi'n bosibl i ni nodi faint o bobl gydag NRPF y gwrthodir cymorth iddyn nhw nac o dan pa fath o amgylchiadau, neu a ydy ffynonellau amgen o gymorth yn cael eu nodi a'u harwyddo yn gyson.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau allweddol ein hymchwil a'r ymdrechion i lywio llwybr i wasanaethau gwell o fewn fframwaith cyfreithiol heriol a gelyniaethus. Nod canolog ein prosiect oedd dod o hyd i ddatrysiadau i helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd neu mewn perygl o fyw mewn tlodi oherwydd eu statws mewnfudo. O gofio hyn, rydyn ni pennu ar argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, cyrff strategol a sefydliadau allweddol yng Nghymru sy'n mynd i'r afael â'n canfyddiadau allweddol. Lluniwyd y rhain a'u mireinio ar ôl ymgynghori â grŵp ymgynghorol ein prosiect.

Cam ydy'r prosiect hwn yn y gwaith parhaus ar NRPF yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ddylanwadu ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ar y cyd â sefydliadau eraill a gweithio gyda chyrff statudol a strategol. Mae ein ffocws yn unol â'n prosiect ehangach 'Mynediad i Gyfiawnder', ar ddiogelu a hyrwyddo hawliau, a mynediad i gyngor a chynrychiolaeth cyfreithiol.

Grŵp ymgynghorol y prosiect

- Natalie Evans, Cydlynnydd Ymgyrchoedd Banciau Bwyd Rhondda Cynon Taf
- James Watts-Rees, Pobl a Gwaith
- Jennifer Morgan, Prifysgol Caerdydd
- Esther Sunday
- Omolola Akagbosu

2. Cymorth a dyletswyddau Awdurdod Lleol

Mae awdurdodau lleol yn ffynhonnell o gymorth hanfodol ar gyfer pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus sydd mewn perygl o fyw neu yn byw mewn tlodi. Mae'r gyfraith yn cyfyngu eu gallu i ddarparu gwasanaethau i rai gydag amod NRPF, ond dydy diffyg hawl i gyllid cyhoeddus ddim yn effeithio ar ddyletswydd awdurdod lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion os nad ydyn nhw'n codi'n uniongyrchol o dlodi o ganlyniad i'w statws mewn fudo nac i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant mewn angen.

Cododd ein hymchwil gwestiynau difrifol am lefel gwybodaeth ac arbenigedd o fewn awdurdodau lleol o ran NRPF. Yn hanfodol, doedden ni ddim yn gallu penderfynu a ydy pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau yn gyson yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, lle mae pobl ag anghenion yn destun cyfyngiad NRPF.

2.1 Dyletswyddau awdurdod lleol yn ôl y gyfraith

Oedolion

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd i asesu anghenion oedolyn gan gynnwys y rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus, pan fydd hi'n ymddangos bod gan oedolyn anghenion gofal a chymorth¹³. Dylid cynnal yr asesiad yn y modd arferol, gan roi'r sylw dyladwy i lesiant yr unigolyn a chynnwys gofalwyr a phobl eraill sy'n dymuno cymryd rhan yn yr asesiad. Dylai'r asesiad hwn ystyried yr effaith ar anallu unigolyn i gyrchu cyllid cyhoeddus ac unrhyw ddiffyg llety a hefyd eu hanghenion gofal a chymorth. Dydy bodolaeth amod NRPF ddim yn esgusodi awdurdod lleol rhag cyflawni ei ddyletswydd i gynnal asesiad.

Er na fydd unigolion gyda NRPF fel arfer yn gymwys i dai cymdeithasol, os nodir anghenion gofal a chymorth, gall awdurdodau lleol weithiau ddarparu llety yn ôl eu disgrisiwn¹⁴.

Ni fydd y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn heb hawl i gyllid cyhoeddus yn berthnasol os bydd yr angen wedi codi o dlodi yn unig¹⁵. Fodd bynnag, gallai anghenion sy'n dod o fewn dyletswyddau awdurdod lleol godi mewn sefyllfaoedd lle mae oedolyn angen cymorth oherwydd, er enghraifft, iechyd corfforol neu feddyliol, salwch, oedran neu ddibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol.

Caiiff rhai oedolion (er enghraifft, rhywun sydd wedi ceisio lloches ond bellach ddim yn cael ei ystyried ei fod yn geisiwr lloches ac sydd wedi methu â chydweithredu â chyfarwyddiadau symud, a phobl a ystyrir eu bod "wedi torri rheolau mewn fudo") eu heithrio o'r ddyletswydd i ddarparu gofal a chymorth ar eu cyfer. Fodd bynnag, os bydd gan unigolyn yn un o'r categorïau anghenion gofal a chymorth fel hyn, rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad o'i hawliau er mwyn penderfynu a all yr unigolyn dan sylw ddychwelyd i'w mamwlad er mwyn osgoi byw mewn tlodi. Os byddan nhw'n gwrthod darparu gofal a chymorth gallai gwasanaethau fod yn torri deddfau hawliau dynol. Dylid asesu ystod o ddarpar rwystrau rhag dychwelyd, gan gynnwys a oes angen cyngor cyfreithiol ar yr oedolyn am ei opsiynau mewn fudo cyn y gellir ystyried y dychweliad¹⁶.

Plant

Mae'r ddyletswydd i asesu'r angen am ofal a chymorth yn parhau'n berthnasol ar gyfer plentyn nad oes hawl gan ei deulu i gyllid cyhoeddus¹⁷. Dylai'r asesiad ystyried a ddiwallwyd yr angen neu a yw'n debygol o gael effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn. Mae hyn yn cynnwys datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol y plentyn hwnnw¹⁸. Efallai bydd angen cynnig cymorth i'r holl deulu i ddiwallu anghenion y plentyn a chadw'r teulu gyda'i gilydd.

Ystyriaethau Cyffredinol

Boed ar gyfer plentyn neu oedolyn, dylid darparu canlyniad asesiad a'r rhesymau dros benderfyniad awdurdod lleol yn ysgrifenedig a dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y plentyn dan sylw neu'r rhieni neu'r gofalwyr yn deall yr asesiad a'r penderfyniadau. Mae'n arfer da i ddarparu asesiadau yn iaith gyntaf yr oedolyn, y plentyn neu'r gofalwr.

Mae gan yr awdurdod lleol y grym i ddiwallu anghenion p'un ai a gynhaliwyd asesiad ariannol neu beidio¹⁹. Gellir darparu cymorth a llety yn uniongyrchol drwy gymorth ariannol neu drwy drydydd parti. Felly, gellir darparu cymorth dros dro tra'n aros am ganlyniad asesiad.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd hefyd i sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a help am y gwasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael²⁰. Er mai cyllid cyhoeddus ydy dyraniad tai, dydy gwybodaeth a chyfeirio pobl gan wasanaethau cyngor ar ddirgartrefedd ac opsiynau tai ddim yn gyllid cyhoeddus²¹.

Mae Adran 15 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn i awdurdodau lleol fabwysiadu ystod o fesurau ataliol. Gallai'r rhain gynnwys gwasanaethau i atal neu oedi datblygiad anghenion gofal a chymorth a chamau gweithredu i ostwng yr anghenion hynny²².

2.2 Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer NRPF

"Mae gweld yr unigolyn a'i anghenion cyn ystyried ei statws mewnfudo yn agwedd sylfaenol o ddull Cenedl Noddfa o fynd ati."

Canllawiau Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF) – Llywodraeth Cymru

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau i helpu cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector i gynorthwyo pobl gydag amod NRPF. Diben y Canllawiau ydy helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r disgwyliad i "fabwysiadu dull o fynd ati i ddarparu cymaint o gymorth a phosibl, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn na allan nhw ei gynnig"²³.

Mae'r canllawiau yn argymhell cyfres o fesurau i awdurdodau lleol a fyddai'n cynorthwyo pobl gydag amod NRPF orau. Asesodd ein hymchwil a oedd awdurdod lleol yn dilyn yr argymhellion allweddol hyn yn y canllawiau:

- Dylai pob awdurdod lleol ddatblygu llwybr NRPF lleol.
- Dylai awdurdodau lleol gynorthwyo datblygiad proffesiynol parhaus swyddogion (roedd ein ffocws yn benodol ar hyfforddiant NRPF).

- Dylai awdurdodau lleol adolygu eu polisiau ar gyfer darparu cymorth ariannol er mwyn sicrhau nad oes neb sy'n derbyn cymorth gwasanaethau cymdeithasol ar ffurf taliadau i dalu am gostau byw hanfodol yn derbyn llai na chyfradd gyfredol y cymorth i geiswyr lloches.
- Dylai awdurdodau gasglu data dienw yn systematig sef y data hynny sy'n cyfeirio at y cymorth y mae pobl gydag amod NRPF yn ei geisio (gyda'r nod o gynnig tystiolaeth am gost ariannol a dynol penderfyniadau mewnfudo a lloches).
- Dylai awdurdodau lleol rannu'r data uchod gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r canfyddiadau yn dangos bod anghysondeb cydymffurfio â'r canllawiau ymhlith awdurdodau lleol drwy Gymru. Mae yna goblygiadau yn hyn o ran darparu cymorth a gwasanaethau yn ogystal â hyrwyddo hawliau a hawliadau pobl i gael gwasanaethau a chymorth.

Mae adnabyddiaeth a dealltwriaeth pobl o ganllawiau Llywodraeth Cymru yn amrywio o awdurdod i awdurdod. Dwedodd rhai awdurdodau eu bod yn dibynnu ar y canllawiau fel adnodd gweithredol tra nododd un Swyddog Cydlyniant Cymunedol sy'n gweithio ar draws nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru fod cynnydd yn yr angen i gynorthwyo pobl a theuluoedd heb hawl i gyllid cyhoeddus, gan nodi nad oedden nhw'n ymwybodol o'i fodolaeth.

Gofynnwn ni i awdurdodau lleol am y cymorth dros dro a ddarparwyd cyn cwblhau asesiad ac am gyfraddau y taliadau a wnaed i ddiwallu anghenion hanfodion bywyd unigolyn lle asesodd awdurdod lleol bod angen parhaus am gymorth. Ni dderbynion ni ddigon o ddata i ddod i unrhyw ganfyddiad ar y naill fater na'r llall.

2.3 Nodi graddfa a sgôp cymorth yr awdurdod lleol

Prin iawn ydy'r wybodaeth am ddarpariaeth y cymorth ar gyfer pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus ar draws Cymru. Mae diffyg data awdurdod lleol yn ei gwneud hi'n eithriadol o anodd i fesur cymorth yr awdurdodau lleol na chwaith i ddangos ystod a demograffeg yr angen. Yr hyn sy'n amlwg ydy bod pryder cynyddol am effaith NRPF ar bobl yng Nghymru a graddfa'r tlodi, digartrefedd a'r cyni sy'n codi o wahardd budd-daliadau a chymorth.

Nododd pobl gyda phrofiad o fyw o dan gyfyngiad NRPF galedi difrifol, drwgdybio awdurdodau lleol a diffyg cymorth, gwybodaeth a chanllawiau. Yn ogystal, sonion nhw am rwystrau rhag nodi a chyrchu'r ddarpariaeth y mae ganddyn nhw hawl iddi ac y byddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd .

Mae ein hymchwil yn nodi nad oes digon yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol i atal cyni ac i nodi a darparu llwybrau allan o dlodi

2.4 Costau cymorth NRPF i awdurdodau lleol

Cafodd astudiaethau eraill bod tynnu hawl i fudd-dal yn ôl oddi wrth pobl heb statws preswlydd sefydlog effaith sylweddol ar gyllidebau awdurdod lleol²⁴. Heb y budd-daliadau i ddiwallu anghenion cymorth dros dro neu i helpu i wneud iawn am y diffyg

yn eu hincwm, mae pobl yn fwy tebygol o fynd i dlodi dirfawr ac i gael eu hecsbloetio a'u cam-drin. Gall hyn olygu bod anghenion gofal a chymorth yn dod o fewn sgôp dyletswyddau awdurdod lleol. Mae tynnu budd-daliadau yn ôl oddi wrth pobl o dan reolaeth mewnfudo a'r cynnydd cyfatebol yn yr angen am gymorth yn cael ei ddiwallu gan yr awdurdodau lleol yn cynrychioli symudiad yn y gost a dynnwyd o gyllideb ganolog y DU i gyllidebau awdurdodau lleol

Heb ddata digonol doedd awdurdodau lleol yng Nghymru ddim yn gallu nodi na dangos tystiolaeth o gost cymorth i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus.

3. Canfyddiadau: awdurdodau lleol

Yn y pen draw, maen nhw'n cydymdeimlo, fe glywon nhw. Unrhyw gamau a weithredwyd a newidiodd yr amgylchiadau? Na.

Cyfranogwr unigol yn yr ymchwil

Tynnwyd ein canfyddiadau o ran awdurdodau lleol o nifer o ffynonellau, yn bennaf:

- Anfonwyd cais am Ryddid Gwybodaeth (FOI) at 21 o awdurdodau lleol (derbyniwyd 20 o ymatebion). Cynhalion ni gyfweiliadau ffurfiol gydag uwch reolwyr mewn un awdurdod lleol a darparodd y wybodaeth angenrheidiol cyn i ni anfon y ceisiadau FOI.
- 26 o ymatebion i'r arolygon anfonwyd at bob un o'r 22 awdurdod lleol, yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, tai, cyngor a gwybodaeth ac adrannau addysg.
- Ymglymiad, yn cynnwys cyfweiliadau lled strwythuredig a sesiynau grŵp gyda chyfanswm o 41 o unigolion yn byw dan amodau NRPF.

Canfuwyd nodweddion bod diffyg ymateb cydlynol i anghenion pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus, diffyg hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, a diffyg cymorth ac isadeiledd. Cawson ni hefyd bod rhai awdurdodau lleol yn annog parodrwydd i wella gwasanaethau a hyfforddiant a phryderon mawr am effaith eithrio pobl rhag cael mynediad i'r system. Mewn sawl achos, derbynion ni geisiadau uniongyrchol am help a chyfarwyddyd.

Mae canfyddiadau 1 i 4 yn ymwneud â chydymffurfiaeth awdurdod lleol i ganllawiau Llywodraeth Cymru.

3.1 Does dim un awdurdod lleol yng Nghymru wedi gweithredu Llwybr NRPF Lleol

Mae angen enbyd am lwybr cydlynol sy'n nodi opsiynau cymorth y trydydd sector, opsiynau fisa, cyfreithwyr arbenigol lleol a allai gynnig cyngor/cymorth a gyllidir neu pro bono, tai brys; pa gymorth all ALL ddarparu'n gyfreithiol ar gyfer oedolion a phlant.

Gweithiwr Cymdeithasol, Pobl Hŷn

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar NRPF yn argymhell bod pob awdurdod lleol yn gweithredu llwybr lleol heb hawl i gyllid cyhoeddus. Diben llwybr o'r fath ydy darparu dogfen sy'n amlinellu dull yr awdurdod lleol o fynd ati i gynorthwyo gydag amod NRPF ac yn gosod allan y modd y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi agweddau o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar waith. Mae'n ddogfen y gall pob aelod o staff yr awdurdod lleol gyfeirio ati yn ogystal â darparu fframwaith ar gyfer gweithio gydag asiantaethau allanol, ymgynghorwyr cyfreithiol a sefydliadau yn y trydydd sector.

Gall llwybr NRPF a ddatblygwyd yn lleol fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer staff awdurdod lleol, yn darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd i staff o ran cynorthwyo pobl

gydag amod NRPF sydd yn aml mewn sefyllfaoedd bregus neu gymhleth. Os caiff ei datblygu ar y cyd â sefydliadau a chymunedau lleol, gall y broses o ddatblygu llwybr fod o gymorth i ganfod adnoddau gwerthfawr a meithrin perthynas waith effeithiol

Mae'r canllawiau yn datgan y dylai llwybr NRPF lleol nodi dull awdurdod lleol o fynd ati i weithredu argymhellion eraill cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar NRPF²⁵. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- darparu cymorth dros dro tra'n ystyried cymhwyster yr unigolyn;
- adolygu polisiau ar gyfer cymorth ariannol a gynigwyd yn unol â dyletswydd statudol awdurdod lleol a gosod cyfraddau sy'n cyfateb i swm cyfredol y cymorth lloches gan y Swyddfa Gartref neu'n uwch na'r swm hwnnw;
- casglu data dienw am unigolion effeithir gan amod NRPF sy'n ceisio cymorth (gweler [3.4](#) am fanylion y data y dylid ei gasglu);
- protocolau rhannu data a chyhoeddi hysbysiadau preifatrwydd;
- rhannu data gyda Llywodraeth Cymru;
- llywio llwybrau allan o dlodi gan gynnwys atgyfeirio pobl at gyngor cyfreithiol priodol, cyflwyno hawliadau lloches amserol cyflawn ar gyfer Plant ar eu pen eu hunain, sydd ar fin bod yn oedolion, ymgysylltu â dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, lle bo'n berthnasol, cynghori a chwilio am lwybrau eraill;
- cynnal teuluoedd gyda'i gilydd;
- cytuno ar fecanweithiau lleol i ddatrys gwrthdaro barn ac i ddatblygu a chynnal perthynas broffesiynol;
- adeiladu partneriaethau effeithiol gyda'r trydydd sector; a
- datblygiad proffesiynol parhaus.

Ar adeg ein hymchwil doedd dim un awdurdod lleol yng Nghymru wedi gweithredu llwybr NRPF. Ymatebodd tri awdurdodau lleol i'n cais am Ryddid Gwybodaeth gan ddweud eu bod yn y broses o ddatblygu llwybr ond doedd dim un wedi'i gwblhau ar adeg yr ymchwil.

Nododd pedwar awdurdod lleol eu bod yn defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru fel llwybr NRPF. Nid dyma diben y canllawiau. Mae'r canllawiau yn darparu eglurhad o'r dyletswyddau a'r grymoedd o dan y ddeddfwriaeth ac yn cynnig cyfarwyddyd cyffredinol ar y dulliau o fynd ati i ddelio â NRPF a gaiff eu hannog o fewn Cenedl Noddfa. Nid yw'n ymwneud ag awdurdodau lleol penodol, nac yn darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol ac adnoddau nac yn ymateb i amgylchiadau lleol ac angen lleol. Nid yw'n darparu camau ymarferol i gynorthwyo staff i lywio llwybrau allan o dlodi sy'n ymwneud ag ardal arbennig o'r awdurdod lleol. Ni all y canllawiau chwaith weithredu fel sail neu fframwaith ar gyfer datblygu cysylltiadau proffesiynol a rheoli gwrthdaro barn.

Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn ystyried y sefyllfa yn briodol o ran NRPF o fewn eu hardal eu hunain ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros nodi anghenion lleol a datrysiadau a datblygu partneriaethau lleol. Dim ond drwy ddatblygu llwybrau sy'n berthnasol i anghenion yn y gymdogaeth, drwy nodi a llunio adnoddau a datblygu

cysylltiadau i fynd i'r afael â'r anghenion hynny, a thrwy ymrwymo i weithredu y bydd awdurdodau lleol yn gallu taclo canlyniadau mwyaf difrifol NRPF yn effeithiol a chynorthwyo pobl i osgoi tlodi neu u i lywio eu ffordd allan ohono.

Mae'r Canllawiau yn datgan y dylai llwybr NRPF awdurdod lleol gynnwys y canlynol:

- egluro i staff newydd a staff presennol am y modd y mae'r sefydliad yn disgwyl iddyn nhw groesawu ac ymglymu â mudwyr sy'n cyrchu eu gwasanaethau
- rhagdybiaeth o blaid darparu cymorth dros dro i atal tlodi
- egluro'r modd y dylai staff awdurdod lleol osod cyfraddau cymorth ariannol
- canllaw ar gyfer casglu a rhannu data
- gwybodaeth am wahanol fathau o lwybrau allan o dlodi y gallai swyddogion ei hystyried
- ymrwymiad i gynnal hawliau plant a chynnal teuluoedd
- gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer y gwahanol asiantaethau trydydd sector sy'n gweithredu yn yr ardal
- cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer swyddogion sy'n gweithio ar y maes hwn²⁶

Mae absenoldeb llwybrau NRPF o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru yn sail i nifer o ganfyddiadau'r adroddiad hwn. Yn ein barn ni, mae llwybrau NRPF lleol yn hanfodol i hyrwyddo ymateb cyson a phositif i anghenion pobl sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus. Gallan nhw osod sylfeini ar gyfer camau gweithredu cydlynol ac effeithiol er mwyn osgoi a mynd i'r afael â thlodi. O'u datblygu yn effeithiol ac ar y cyd, gall llwybrau osod sail ar gyfer cydweithio, atgyfeirio effeithiol rhwng asiantaethau, ymatebion cyflymach a gwell i angen a darpariaeth leol well.

3.2 Dim ond 32% o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n darparu neu gomisiynu hyfforddiant NRPF ar gyfer staff i

Yn y canllawiau NRPF, mae Llywodraeth Cymru yn amlygu'r angen i awdurdodau lleol sicrhau bod gan staff y gallu i nodi'r cymorth y gelir ei ddarparu i rywun heb hawl i gyllid cyhoeddus. Mae'r canllawiau yn argymhell hyfforddiant i staff yn ystod y cyfnod sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus o fewn y maes hwn²⁷.

Cafodd ein hymchwil fod yr hyfforddiant a gynigwyd i staff o fewn awdurdodau lleol yn anghyson ar draws Cymru, gyda gwahanol raddau o eglurder o ran graddau, sgôp ac ansawdd yr hyfforddiant a ddarparwyd.

Mae ymatebion i Ryddid Gwybodaeth yn dangos nad ydy naw awdurdod lleol (41%) yn comisiynu hyfforddiant ar NRPF na darparu hyn yn fewnol. O'r rhain, nododd un pan gomisiynwyd yr awdurdod lleol hyfforddiant ar gam-drin domestig, roedd yn cynnwys "elfen o NRPF".

Mae saith awdurdod lleol (32%) yn darparu neu'n comisiynu hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â NRPF. Ond, dydy'r cyfan o'r hyfforddiant hwn ddim yn cynnwys pob adran berthnasol. O'r saith, nododd un awdurdod lleol ei fod yn cynnig hyfforddiant

mewnol ar gyfer gweithwyr newydd yng ngwasanaethau digartrefedd ac roedd yn y broses o weithio gyda phartner i ddatblygu adnoddau a fyddai, yn y dyfodol, yn cael eu cynnig yn flynyddol i'r holl staff ym maes gwasanaethau oedolion. Ni chyfeiriwyd at hyfforddiant ar gyfer yn yr adrannau eraill, gan gynnwys gwasanaethau plant. Roedd ffocws hyfforddiant NRPF un awdurdod lleol arall ar addysg a gwasanaethau plant. Dim ond un awdurdod lleol fabwysiadodd ddull eang o fynd ati, gan nodi bod hyfforddiant wedi cael ei gynnig i staff yn ei adrannau tai, cyfraith a gwasanaethau cymdeithasol, Tîm Llwybr Mewnfudo, a thimau Cysylltu Cymunedau "perthnasol".

Wrth ymateb i'n harolwg, dywedodd gweithiwr cymdeithasol o awdurdod lleol nad oedd wedi ymateb i'r cais am FOI bod hyfforddiant NRPF ar gyfer darparwr allanol wedi cael ei ddarparu ar gyfer y tîm sy'n derbyn atgyfeiriadau oedolion.

Roedd dau o'r awdurdodau lleol a ddarparodd hyfforddiant wedi trefnu hyn fel digwyddiad untro. Nododd un o'r rhain bod NRPF "yn thema o fewn ein cwrs amddiffyn oedolion". Mae'n bwysig bod hyfforddiant trylwyr yn cael ei gynnig i staff ar adeg eu sefydlu a bod cyrsiau diweddarau rheolaidd yn cael eu cynnig er mwyn sicrhau bod staff yn gwybod am y newidiadau diweddaraf ym maes y gyfraith, yn y polisi ac arferion.

O ran gweddill yr awdurdodau lleol, wnaethon nhw naill ai ddim ymateb neu gynnig atebion nad oedd yn bosibl i ni ddod i gasgliad pendant am eu trefniadau hyfforddi. O'r rhain, cyfeiriodd un at drefnu hyfforddiant ar gyfer tîmoedd plant ar bynciau asesu oed a chyfraith lloches ond ni soniwyd am unrhyw hyfforddiant penodol ar NRPF.

Fe nodon ni y gallai timau unigol neu aelodau staff chwilio am neu fynychu eu hyfforddiant eu hunain am NRPF.

Mae awdurdodau lleol sydd ddim yn darparu hyfforddiant yn ei gael o wahanol ffynonellau. Roedd dau awdurdod lleol wedi datblygu a chyflenwi hyfforddiant mewnol, un o'r rhain ar y cyd â sefydliad partner. Roedd eraill wedi comisiynu hyfforddiant gan sefydliadau megis 'NRPF Connect' (a nododd rhai bod hyn wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru), 'Talking Life' (sy'n ffocysu ar blant a gofal cymdeithasol teuluol), Cyngor ar Bopeth ac elusen 'Settled'.

Yn ogystal â hyfforddiant ffurfiol, nododd awdurdodau lleol eu bod yn defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru, rheoliadau Budd-dal Tai, cylchlythyrau'r Adran Waith a Phensiynau, gwefan y Swyddfa Gartref a bwletinâu cyfreithiol i hysbysu a chynghori staff am NRPF. Mewn nifer o achosion, roedd staff yr awdurdod lleol yn dibynnu'n llwyr ar ffynonellau o'r fath am wybodaeth am NRPF, yn absenoldeb unrhyw raglen hyfforddiant.

Mae hyfforddiant ar NRPF yn elfen allweddol o gymorth effeithiol awdurdod lleol. Mae hyfforddiant yn gwella gwybodaeth am effeithiau of NRPF, yn darparu eglurder am ddyletswyddau a grymoedd, yn datblygu dealltwriaeth o ymatebion effeithio a phriodol ac yn datblygu arbenigedd. Gall hefyd amlygu cymhlethdod y gyfraith mewnfudo a helpu i atal camau gweithredu a allai, yn nes ymlaen, gael effaith negyddol difrifol ar gais neu statws mewnfudo unigolyn.

3.3 Staff awdurdod lleol yn gofyn am ragor o gyfarwyddyd a hyfforddiant

Dyma'r tro cyntaf i mi glywed am NRPF, felly byddai hyfforddiant/ymwbyddiaeth staff o fudd.

Gweithiwr cymdeithasol, gwasanaethau oedolion

Hoffwn wybod yr amgylchiadau lle mae angen i mi ddarparu cymorth... Canllaw cymorth ymarferol.

Uwch reolwr, gwasanaethau plant

Er y bydden ni'n cynnig cyngor ar ystod helaeth o bynciau, rydyn ni, yn aml, yn rhoi cyngor cyffredinol ac fel arfer mae'n seiliedig ar ymchwil Google yr ydyn ni'n ei wneud ein hunain. Rydw i wedi bod yn gweithio yn yr awdurdod ers blwyddyn ac ni chlywais erioed sôn am NRPF, ches i erioed cynnig hyfforddiant na dim byd arall.

Gweithiwr cymdeithasol, gwasanaethau plant

Nododd 60% o ymatebwyr i'n harolwg nad oedden nhw'n gwybod a oedd yr awdurdod lleol y maen gweithio iddo yn darparu hyfforddiant ar gynorthwyo pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus.

Pan ofynnwyd "oes unrhyw beth a gredwch fyddai o help i'r awdurdod lleol i wella'r cymorth i bobl ag anghenion yn codi o NRPF?", yr ymateb mwyaf cyffredin a gafwyd oedd 'hyfforddiant', gydag wyth o'r 21 ymatebydd yn nodi angen am ragor o hyfforddiant ar eu cyfer nhw eu hunain ac eraill yn nodi at ddarpar anghenion hyfforddiant yn adrannau awdurdodau lleol eraill. Roedd ymatebwyr eraill yn gofyn am gyngor, cyfarwyddyd neu dempled o bolisiau. Dywedodd un ymatebydd y byddai rhagor o gymorth gan Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol, tra nododd tri nad oeddwn nhw'n gwybod beth oedd NRPF nac erioed wedi clywed amdano.

Cydnabu un Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant yr angen am hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen:

Deallwn oherwydd na fyddai ymarferwyr yn dod ar draws y broblem yn fynych, efallai na fyddan nhw'n hyderus. Rydyn ni'n ceisio llunio canllawiau cyfeillgar i ymarferwyr.

Mae sylwadau Rheolwr Diogelu o fewn yr un awdurdod lleol yn dangos yr angen i roi'r gallu i staff i "fabwysiadu dull o fynd ati i ddarparu cymaint o gymorth ag y gallan nhw, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn na allan nhw ei gynnig"²⁸, gan ychwanegu:

Rydwi'n gliriach fy meddwl am ein dyletswyddau ym maes Gofal Cymdeithasol Oedolion ond yn llai eglur am ein pwerau a'r modd y dylen ni wneud penderfyniadau.

Yn ogystal ag ymatebion i'n harolwg, derbynion ni bum cais gwahanol am help gan staff awdurdod lleol tra'n cynnal ein hymchwil. Roedd y rhain yn cynnwys gofyn am gyngor ar achosion penodol gan gynnwys un ymholiad am ddarparu llety. Hefyd, derbynion ni gais am gymorth gan unigolyn a gafodd rhif ffôn Sefydliad Bevan gan awdurdod lleol. Mae hyn yn dangos lefel yr angen o fewn awdurdodau lleol am hyfforddiant a datblygiad, a diffyg opsiynau ar gyfer cyngor, cyfarwyddyd a chymorth.

Mae angen rhagor o adnoddau a chyfarwyddyd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, rhagor o weithwyr gofal cymdeithasol a staff eraill i weithio gyda phobl gydag amod NRPF yng Nghymru. Mae canolfan Gyfreithiol Plant a leolir ym Mhrifysgol Abertawe wedi cynhyrchu adroddiad ardderchog o'r enw "Child first, a best practice guide for social workers in Wales supporting unaccompanied asylum seeking children"²⁹, ond gan nad ydy NRPF yn effeithio lawer ar blant sy'n derbyn gofal, dydy'r pwnc ddim yn cael sylw.

Nododd sylwadau staff yr angen am ragor o hyfforddiant ac am well hyfforddiant, canllawiau ymarferol perthnasol, datblygiad polisiâu mewnol a llwybrau, a chyngor arbenigol a rhwydweithiau atgyfeirio a all gynorthwyo mewn achosion penodol.

3.4 Dim ond dau awdurdod lleol yng Nghymru sy'n casglu data ar y cymorth a roddir i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF)

"Mae diffyg data dibynadwy yn ei gwneud hi'n anodd i fonitro effaith penderfyniadau Llywodraeth Cymru o ran lloches ac ymfudiad ar Gymunedau Cymru ac yn atal awdurdodau lleol rhag nodi ac eiriol dros newid polisi allai leihau tloidi"

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gynorthwyo Pobl Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn argymhell bod awdurdodau lleol yn casglu data dienw yn systematig am bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus sy'n ceisio cymorth, gan gynnwys manylion am y canlynol:

- dyddiad y cymorth a geisiwyd
- y math o gymorth y gofynnwyd amdano
- dyddiad cychwyn y cymorth
- y math o gymorth dderbyniwyd
- dyddiad y mae'r unigolyn yn cyrraedd y DU
- y math o statws mewnfudo sydd gan yr unigolyn ar hyn o bryd
- statws mewnfudo blaenorol y DU sydd gan yr unigolyn efallai (yr enghreifftiau a roddir ydy "fisa gweithio, fisa myfyrwyr, ceisiwr lloches ayb")
- y rheswm dros fod yn ddiymgeledd (yr enghreifftiau a roddir ydy "wedi cael gwrthod lloches, aros yn hirach na chyfnod y fisa, colli swydd ar fisa gweithio ayb")

- nodi llwybrau allan o fod yn ddiymgeledd (enghreifftiau a roddir ydy “apêl am loches, cais newydd, amod NRPF wedi'i godi, consesiwn cam-drin domestig, Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol”)
- amcangyfrif o gost misol cymorth fesul achos
- amcangyfrif o gost misol cymorth holl achosion a gynorthwyir yn yr awdurdod lleol

Mae'r canllawiau yn pwysleisio y dylai'r data a gesglir fod yn ddi-enw, ac mae ystyried rhannu ystyriaeth ymlaen llaw yn hanfodol i liniaru'r ofn y caiff y wybodaeth am y rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus ei rhannu gyda'r Swyddfa Gartref³⁰.

Yn ôl ymatebion i FOI, dim ond dau awdurdod lleol (Caerdydd a Chasnewydd) sy'n casglu data di-enw fel mater o drefn, y data hynny sy'n ymwneud â'r cymorth a ddarperir ar gyfer pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus. Y De-Ddwyrain ydy'r ardal fwyaf poblog yng Nghymru a'r ddau awdurdod lleol hyn sydd â'r canran uchaf o breswylwyr mudol. Roedd y ddau awdurdod lleol yn cydnabod bod angen astudiaeth sylweddol o NRPF. Gwrthododd y ddau ddarparu data ar gyfer Sefydliad Bevan ar sail y byddai'r gost o gydymffurfio â'r cais yn uwch na £450.

Nododd un awdurdod lleol bod eu prosesau casglu data yn cael eu hadolygu. Dywedodd un arall eu bod yn adolygu'r broses o gasglu data am NRPF o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ond wedi nodi'r angen am hyfforddiant ar hyn. Nodwyd eu hymateb i FOI:

Mae ein hatgyfeiriadau i'r gwasanaeth wedi gallu dynodi'r teuluoedd sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus, fodd bynnag, ar hyn o bryd ni chaiff y math o gymorth mae'n nhw'n ei dderbyn ei dracio, hefyd mae angen hyfforddiant o ran staff i ddynodi teuluoedd NRPF a sicrhau eu bod yn gwneud hyn yn glir wth atgyfeirio.

Mae'r sylw hwn yn dangos bod angen hyfforddiant digonol ar NRPF nid yn unig i ddarparu gwasanaethau priodol ond hefyd i sicrhau y gellir dynodi, cofnodi a riportio'r angen a'r ddarpariaeth.

Hyd yn oed yn y ddau awdurdod lle casglwyd data, nid oedden ni'n gallu cadarnhau bod data yn cael ei gasglu'n gyson ar draws pob adran berthnasol. Dywedodd un awdurdod:

Cesglir data dim ond os ydy'r unigolyn yn derbyn gwasanaethau cymdeithasol neu os ydy'r unigolyn wedi cael ei gyfeirio at y Grŵp Caledi drwy'r tim Cysylltu Cymunedau/Mudo, neu os ydy'r unigolyn wedi'i gyflwyno i'r Gwasanaethau Digartrefedd ac yn barod ac yn gallu rhannu eu statws ac amodau mewnffudo.

Mae'n ymddangos bod casglu data yn yr awdurdod hwn wedi'i gyfyngu i oedolion heb hawl i gyllid cyhoeddus sydd ag anghenion cymorth. Dydy hi ddim yn glir a gesglir data o wasanaethau plant hefyd. Doedden ni dim yn gallu nodi unrhyw ddata a gasglwyd am unigolion oedd wedi gwneud cais am gymorth ond wedi cael eu gwrthod.

Does dim awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd yn defnyddio NRPF Connect, atebion rheoli achos pwrpasol ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cynorthwyo pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus. Mae'r system yn cyfathrebu gyda Thim NRPF y Swyddfa Gartref ac yn helpu awdurdodau lleol i gyrchu gwybodaeth gywir a chyfredol am statws

mewnfudo unigolyn a'i hawl i fudd-daliadau a chymorth digartrefedd. Mae 82 awdurdod lleol yn defnyddio'r bas data ar draws y DU.

Poblogaethau gwahanol a chyfnewidiol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn ei chanllawiau NRPF na fydd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn casglu data yn systematig ar y cymorth a roddir i'r rhai ag amod NRPF. Mae maint poblogaethau mudwyr yn amrywio o un awdurdodau lleol i'r llall yng Nghymru a bydd gwahaniaethau sylweddol yn lefel yr angen am gymorth a gwasanaethau ar bobl ag amod NRPF. Canfu ein hymchwil fod diffyg casglu data a hyfforddiant mewn meysydd lle nodwyd bod angen cymorth.

Mewn nifer o awdurdodau lleol, mae poblogaethau ac anghenion yn newid naill ai o ganlyniad i fudo naturiol neu oherwydd bod ceiswyr lloches wedi'u gwasgaru'n eang. Mewn ambell awdurdod lleol mynegir pryderon nad ydy gwasanaethau ac ymwybyddiaeth wedi datblygu newidiadau demograffeg diweddar. Mae diffyg data yn ei gwneud hi'n anodd i fesur ble mae pobl NRPF sydd ag anghenion i'w cyflwyno a beth ydy'r anghenion hynny. Mae'n hanfodol i gael data cywir a chyfredol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a gyflenwir yn ddigonol ac yn ymatebol

Manteision casglu data

Mae Llywodraeth Cymru yn annog casglu data am nifer o resymau. Yn y canllawiau, mae Llywodraeth Cymru yn datgan y gall data trylwyr alluogi awdurdodau lleol i "ddangos tystiolaeth o gostau ariannol a dynol penderfyniadau lloches a mudo yn eu hardal". Gallai casglu data "hefyd alluogi'r awdurdod lleol i nodi patrymau yn y rhesymau pam bod unigolion yn mynd yn ddiymgeledd ac angen cymorth awdurdod lleol"³¹. Mae'r canllawiau yn cyfeirio at werth y data wrth bledio gyda Llywodraeth y DU am newid yn y polisi a chynllunio "ymglymiad rhagweithiol" gyda phobl NRPF sydd mewn perygl o fod yn ddiymgeledd.

Gallai fod yn anodd i awdurdodau lleol i werthfawrogi y buddion hirdymor hyn wrth wynebu costau rhoi'r newidiadau i gasglu data ar waith a hyfforddi staff. Byddai arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru yn hyrwyddo casglu data NRPF, gweithredu i chwilio am y data a gasglwyd, ei goladu a'i ddefnyddio'n effeithiol a dangos effeithiau'r gwaith y mae eu tystiolaeth yn ei gefnogi i awdurdodau lleol ac eraill. Byddai canllawiau, cymorth ac adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol yn casglu data am gymorth NRPF o fudd mawr.

3.5 Roedd rhagdybiaethau cyferbyniol yn amlwg ar wahanol lefelau o fewn yr un awdurdod lleol

"Dydy [NRPF] ddim yn bwnc llosg o fewn y Cyngor"

Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol

Ar fwy nag un achlysur, nodwyd gwahanol ganfyddiadau o angen ymhlith ymarferwyr ac uwch reolwyr o fewn yr un awdurdod lleol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a ddyfynnwyd uchod nad oedd wedi clywed cyfeiriad at

NRPF ers blynyddoedd. Nododd staff yn yr un awdurdod lleol gynnydd mewn ceisiadau am gymorth ar gyfer plant a theuluoedd o ganlyniad i "gostau byw uchel" a "gofynion cymhwyster" o ran buddion ar gyfer mudwyr yr UE. Clywson ni am angen aruthrol am gymorth gan bobl gyda NRPF, banciau bwyd, asiantaethau cynghori, a sefydliadau llawr gwlad o fewn ardal arall lle nad oedd uwch reolwyr "yn ymwybodol bod NRPF yn fater a gododd yn fynych".

Weithiau, ymddangosai bod cynghorau yn ffocysu ar faes cul o gymorth heb fod yn ymwybodol o anghenion ehangach. Er mwyn dynodi'r angen yn gywir, mae rhaid i awdurdodau lleol gynllunio a chyflenwi gwasanaethau, i sicrhau argaeledd adnoddau priodol ac i weithredu mesurau ar gyfer atal amddifadrwydd.

Byddai data cynhwysfawr ac uchel ei ansawdd yn help i gynnig tystiolaeth o'r angen i gynorthwyo pobl gyda NRPF. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol hefyd ymgysylltu gydag asiantaethau a sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynorthwyo pobl ag amod NRPF gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion lleol. Heb ffynonellau data meintiol ac ansoddol, mae perygl y bydd y rhai sy'n llunio a rheoli gwasanaethau yn credu nad yw anghenion anweladwy yn bodoli:

"Yn gyffredinol, os nad ydy pobl yn gwybod beth i'w wneud, byddan nhw'n gofyn am gyngor uwch swyddogion. Yn gyffredinol, mae pobl am ei ddatrys i'r unigolyn a bydd yn gorffen yma."

Uwch reolwr, gwasanaethau cymdeithasol

3.6 Mae diffyg dealltwriaeth o NRPF o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru

"Prin ydy ein profiad o NRPF a does dim polisiau mewnol na chanllawiau"

Pennaeth gwasanaeth, awdurdod lleol

Ni ddangosodd nifer o ymatebwyr awdurdod lleol eu bod yn deall i ba raddau y mae NRPF yn berthnasol, ei holl effeithiau, na dealltwriaeth glir o ddyletswyddau awdurdod lleol o ran pobl heb hawl i gyllid.

Yn aml, dim ond cyfeirio at geiswyr lloches byddai ymatebwyr wrth ymateb i gwestiynau cyffredinol am NRPF. Er y byddai staff yn fwy tebygol o ddeall na fyddai gan bobl sy'n ceisio noddfa hawl i gyllid cyhoeddus ar ôl dihybyddu eu hawliau apêl, doedden nhw ddim, weithiau, yn ymwybodol bod y cyfyngiadau yn berthnasol i grwpiau eraill o fudwyr. Cawson ni bod mudwyr heb fod o dan orfodaeth, yn ogystal â ffoaduriaid, sy'n gyfranwyr allweddol i'n cymdeithas, ein heconomi a'n diwylliant, mewn perygl o gael eu hanwybyddu gan asiantaethau statudol.

Gall y pwyslais ar geiswyr lloches ddeillio'n rhannol o'r ffocws ar bobl sy'n ceisio noddfa ym mholisi Llywodraeth Cymru ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn y Canllawiau NRPF:

Mae cynllun Cenedl Noddfa³² yn gosod allan ein hymrwymiad i wella canlyniadau ar gyfer pawb sy'n chwilio am noddfa, gan gynnwys y rhai Heb Hawl i Gyllid

Cyhoeddus, sef yr NRPF. Ers i'r cynllun gael ei gyhoeddi, mae carfannau eraill o fudwyr wedi wynebu problemau wrth sicrhau neu brofi eu statws mewnfudo, gan brofi ystod o effeithiau negyddol o ganlyniad.

Mae'r canllawiau yn mynd ymlaen i egluro bod:

*"Mae cyfyngiadau NRPF yn berthnasol i ystod amrywiol o bobl yn cynnwys gweithwyr medrus noddedig, aelodau teuluoedd dinasyddion Prydeinig, buddsoddwyr, ceiswyr lloches a mudwyr heb eu dogfennu. O fis Ionawr 2021, mae gwladolion yr UE yn amodol ar reolaeth fewnfudo fel rhan o system fewnfudo yn seiliedig ar bwytiau a bydd hefyd yn amodol ar gyfyngiadau NRPF."*³³

Er i hyn gael ei gynnwys yn y fersiwn fwy diweddar o'r canllawiau, dim ond lloches roedd rhai awdurdodau yn ei ystyried wrth feddwl am NRPF. Nododd un FOI:

Dydy hyn ddim yn fater yr ydyn ni wedi ei wynebu hyd yn hyn yng nghyd-destun ceiswyr lloches a ffoaduriaid, sef cyd-destun canllawiau Llywodraeth Cymru yr ydych yn cyfeirio atyn nhw.

Tanseiliodd diffyg profiad, diffyg hyfforddiant a diffyg cyfarwyddyd ymarferol arbenigedd staff yn y maes hwn. Yn gyffredinol roedd agweddau staff yn bositif a mynegodd ymatebwyr ein harolwg eu dymuniad i wybod rhagor a gwneud mwy i gynorthwyo pobl dan amod NRPF. Pan gysylltwyd ag awdurdodau lleol drwy lwybrau eraill, fodd bynnag, derbyniwyd rhai ymatebion oedd yn dangos anwybodaeth. Un yn galw llinell gymorth gyhoeddus awdurdod lleol i holi am argaeledd prydau ysgol am ddim a gyfer pobl dan amod NRPF; gofynnodd y teleffonydd

O ble maen nhw'n dod? ...Al Iraq neu rywle? ...Ydyn nhw'n fewnfudwyr anghyfreithlon?

Gall diffyg ymwybyddiaeth o NRPF mewn awdurdodau lleol atgyfnerthu amgylchedd gelyniaethus a drwgdybiaeth o gyrff swyddogol. Mae profiadau o ymatebion negyddol neu sarhaus wrth chwilio am gymorth, ar wahân i fod yn annerbyniol, yn rhwystrau ychwanegol rhag cyrchu cymorth. Gall ymholiadau diangen am statws mewnfudo, gwlad eu geni neu awgrymiadau o fod yn "anghyfreithlon" danseilio ymddiriedaeth ac atal pobl rhag ystyried llwybrau o gymorth pellach. Gallan nhw hefyd effeithio'n ddifrifol ar lesiant pobl ac ar eu hiechyd emosiynol.

3.7 T Mae diffyg cysondeb rhwng ac o fewn awdurdodau lleol yn eu dulliau o fynd ati i ddelio ag NRPF

Cawson ni fod diffyg cysondeb rhwng gwahanol adrannau o fewn awdurdodau lleol o ran hyfforddiant a darparu cymorth. Roedd ffocws llawer o ymatebion awdurdodau lleol ar gymorth gwasanaethau oedolion, a llai o sôn am wasanaethau plant, a nemor ddim ystyriaeth o'r angen am hyfforddiant ac adeiladu ymwybyddiaeth o fewn y gwasanaethau gwybodaeth a chynghori, a'r gwasanaeth addysg.

Roedd diffyg cysondeb hefyd rhwng awdurdodau lleol, o ran y cymorth a ddarperir, yr hyfforddiant a gynigir, ymwybyddiaeth o faes NRPF a phryder yn ei gylch, a gweithio i wella ymatebion awdurdodau lleol.

Mae cyfleodd cyfyngedig i awdurdodau lleol rannu arferion a gwybodaeth. Ar hyn o bryd yng Nghymru, does dim fforwm cenedlaethol ar gyfer NRPF yn cynnwys

asiantaethau statudol. Cawson ni wybod am fforwm rhanbarthol yn cynnwys awdurdodau lleol yn ardal Cwm Taf, sy'n gam positif tuag at rannu gwybodaeth a chyd-gymorth.

3.8 Mae rhai awdurdodau lleol ac adrannau yn gwneud ymdrechion ar y cyd i wella cymorth i bobl dan amod NRPF

O ryngweithio gydag awdurdodau lleol, cawson ni fod parodrwydd cyffredinol ymhlith staff awdurdod lleol i helpu a chynorthwyo ceiswyr lloches, mudwyr a phobl yn dioddef yn ariannol oherwydd NRPF. Mae'r fforwm rhanbarthol a ddisgrifiwyd uchod yn un enghraifft o'r dulliau y mae awdurdodau lleol yn gwneud ymdrech i wella darpariaeth ac ymarfer. Mynegodd eraill awydd i ddatblygu canllawiau mewnol a gwella hyfforddiant ac ymarfer. Pwysleisiodd un Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant bod yr awdurdod lleol yn fodlon cydweithio ag eraill a'u dymuniad i ehangu eu profiad fel y gallai staff ymateb yn bositif i bobol sydd wedi cael eu heffeithio gan NRPF:

Yr hyn dw i'n ei ddweud ydy ein bod yn deall ein cyfrifoldebau yn y maes hwn. Rydyn ni fel ymarferwyr yn deall y gallen weithiau, ond yn anfynych, ddod ar draws y broblem ac felly dydyn ni ddim yn hyderus i ddelio â'r mater. Rydyn ni'n ceisio llunio canllawiau cyfeillgar i ymarferwyr.

Amlinellodd un awdurdod yn ei ymateb i FOI y newidiadau y mae'n eu gwneud o ran hyfforddiant:

Cyflenwyd yr hyfforddiant i'r tîm Llwybrau Mewnfudo. Gan fod y tîm yn newydd, ni phenderfynwyd eto pa mor aml y cynhelir sesiynau diweddarau. Byddwn yn sicrhau y bydd holl aelodau'r tîm yn derbyn yr hyfforddiant hwn a'r newyddion diweddaraf pan fydd newidiadau'n digwydd i'r fframwaith rheoleiddiol neu'r fframwaith ymarfer. Mae ymarferwyr hefyd yn derbyn y diweddaraf ar gyfraith achosion drwy gydol y flwyddyn drwy fwletinau cyfreithiol. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae staff perthnasol Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, y Gyfraith a Chysylltu Cymunedau wedi derbyn hyfforddiant dan gontract Llywodraeth Cymru ar NRPF gan y rhwydwaith NRPF, Cyngor ar Bopeth ac elusen 'Settled'. Hefyd, darparwyd hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o fudo ar gyfer tîmau ehangach sy'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol am NRPF.

3.9 Mae angen i awdurdodau lleol ddatblygu perthynas waith well gyda sefydliadau arbenigol a darparwyr cyngor ar fewnfudo

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n datblygu ein polisiau o ran achosion NRPF er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y teuluoedd hynny sydd wedi cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth. Byddai deall y cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a gwasanaethau'r trydydd sector hefyd o help i ni o ran diwallu'r angen hwn.

Rheolwr Tîm, Gwasanaethau Plant a Theulu

Doedden ni ddim yn gallu nodi isadeiledd cadarn o gymorth, yn enwedig cydweithio rhwng awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a chyfreithwyr ac asiantaethau'r trydydd sector sy'n cynnig cyngor cyfreithiol.

Yn ein harolwg, gofynnwn ni a oedd gan ymatebwyr neu eu timau berthynas waith gyda sefydliadau'r trydydd sector a phwy oedd y rhain. O'r 21 ymateb, atebodd pump (24%) yn gadarnhaol. Dwedodd 73% 'na'. O'r rhain a gynigiodd ateb cadarnhaol, dim ond un sefydliad allanol oedd tri ohonyn nhw yn gallu enwi eu bod yn gweithio gyda nhw. Dim ond dau nododd eu bod wedi gweithio gyda rhwydwaith o asiantaethau neu wedi atgyfeirio pobl atyn nhw. Ni ellir derbyn bod yr ymatebion i'r arolwg yn sampl cynrychiadol, ond maen nhw'n codi cwestiynau am i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn gysylltiedig â sefydliadau yn eu hardal wrth gefnogi a chynorthwyo pobl dan amod NRPF.

Daeth rhai awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r problemau oedd yn effeithio ar bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus oherwydd eu bod wedi eu crybwyll gan sefydliadau'r trydydd sector:

Rydyn ni wedi siarad â banciau bwyd a chael eu bod yn gweld cynnydd yn niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol sy'n *dod atyn nhw, felly rydyn ni'n ceisio deall a ydy hyn yn digwydd yng ngwasanaethau'r Cyngor, neu a ydy pobl yn peidio â mynd at y Cyngor, neu efallai bod nhw'n dod gyda phroblemau sydd ddim yn rhan o ddyletswyddau'r Cyngor.*

Gallai gwasanaethau megis banciau bwyd fod y rhai cyntaf i weld tueddiadau pan fydd angen yn codi ymhlith cymunedau arbennig, neu lle bo cynnydd yn yr angen ymhlith pobl dan amod NRPF. Nododd Banciau Bwyd Trussell Trust mewn un ardal gynnydd sylweddol yn y defnydd gan bobl sy'n "ceisio cymorth ariannol oherwydd eu statws mewn fudo" rhwng Medi 2022 a Medi 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, roedden nhw wedi darparu parseli bwyd ar gyfer 644 o oedolion a 529 o blant yn y categori hwn. Dywedodd un banc bwyd mai'r hyn a anogodd pobl i ddefnyddio'u gwasanaethau oedd argymhellion cwsmeriaid a datblygu ymddiriedaeth.

O ganlyniad i ymglymiad rhwng y banc bwyd hwn a'r brifysgol gyfagos, mae'r brifysgol ers hynny yn dosbarthu talebau ar gyfer y banc bwyd. Mae'r banc bwyd hefyd wedi gweithio i ddwyn y materion i sylw'r awdurdod lleol.

Mae'r ymholiadau a dderbynion ni am achosion penodol yn dangos bod rhai awdurdodau lleol yn cael trafferth i ddod o hyd i gyngor arbenigol ac asiantaethau atgyfeirio (gweler [Adran 4](#) am ragor o wybodaeth ar hyn).

Mae'r ffaith bod llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn fach o ran maint a maint y poblogaethau mudol yn ei gwneud hi'n anodd i ddatblygu arbenigedd a phrofiad. Byddai rhagor o gydweithredu rhwng awdurdodau yn rhanbarthol a chenedlaethol a chydweithio agosach rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau arbenigol yn cynorthwyo ymarfer a datblygiad polisi.

Mae'r astudiaeth achos isod o swyddfa Cyngor ar Bopeth yn dangos pwysigrwydd y trydydd sector a pha mor ddwys a thrafferthus all y gwaith fod o gynorthwyo unigolion a theuluoedd dan amod NRPF, yn enwedig yn absenoldeb cymorth awdurdod lleol. Mae hefyd yn dangos y modd y gall partneriaeth waith effeithiol arwain at ganlyniadau positif ar gyfer pobl sy'n wynebu tlodi a diymgeledd, a'r gwahaniaeth enfawr y gall ymyriad positif awdurdod lleol ei wneud.

Astudiaeth achos rhif Un

Fe wnaeth y cleient atgyfeirio ei hun aton ni ym mis Ionawr eleni. Roedd yn cael trafferth i gael cymorth i ddelio â digartrefedd gan y cyngor a heb ddull o ennill incwm. *Mae'r cleient, ei briod, a'u rhieni yng nghyfraith ar fisa Gwladolyn Prydeinig (Tramor). Roedden nhw'n byw mewn 'campervan' a'u cynilion i gyd mewn arian parod. Roedden nhw wedi colli eu cartref a'u holl gynilion, ynghyd â mwyafrif o'u heiddo, mewn tân.*

Ar y cychwyn, roedd y cyngor yn gwrthod cynorthwyo'r teulu oherwydd diffyg tystiolaeth, pryderon am dwyll a masnachu pobl a diffyg dealltwriaeth o fisa Gwladolyn Prydeinig (Tramor) a dyletswyddau a gallu'r cyngor i gynorthwyo'r teulu.

Treulion ni bob dydd am tua 2 wythnos ar yr achos hwn (rhywbeth nad oes ganddon ni'r gallu na'r capasiti i ddelio â rhagor oherwydd gostyngiad yn ein cyllid). Roedd hyn yn cynnwys apwyntiadau cyson gyda'r teulu i gasglu gwybodaeth a chynnig cyngor. Roedd yn cynnwys llawer o gysylltu â sefydliadau lleol i geisio darparu llety dros dro ar gyfer y teulu, cysylltu â'n AS lleol a Hwb Croeso Hong Kong a chyfarfodydd cyson gyda'r cyngor i'w helpu i ddeall eu rôl hwy a pha gymorth oedd ar gael i'w helpu i gynorthwyo'r teulu o ran eu lletya tra'n gweithio ar feysydd eraill o gymorth.

Yn dilyn ein hymchwil, a gyda help ein tim cyngori arbenigol, roedden ni'n gallu nodi y gallen ni wneud cais ar gyfer amrywio amodau caniatâd aros yn y wlad ar gyfer y teulu. *Fe wnaethon ni gynorthwyo'r teulu i wneud cais am hyn a rhoi'r holl wybodaeth berthnasol iddyn nhw. Gyda help ein AS lleol, caniatwyd hyn. Tra bod hyn yn mynd ymlaen, darparodd y cyngor lety dros dro ar gyfer y teulu a chyrchu grant o £5000 gan Lywodraeth Cymru i dalu am hyn. Roedd hyn yn dilyn cyfarfod a gynhaliodd yr AS â chynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y grant hwn. Ar ôl i amod NRPF gael ei godi, lletyodd y Cyngor y teulu gyda chymdeithas tai leol a chynorthwyon ni'r teulu i gyrchu Credyd Cynhwysol, Gostyngiad Treth, Credyd Pensiwn a Lwfans Presenoldeb.*

Roedd ein cymorth hefyd yn cynnwys atgyfeiriadau at fanciau bwyd, atgyfeiriadau at gymorth tai lleol a thimau cyflogaeth, cyrchu dosbarthiadau Saesneg, gwneud cais am rif yswiriant cenedlaethol, cyrchu gwasanaethau iechyd, sefydlu eu tenantiaeth, cael celfi, trefnu yswiriant ar gyfer eu 'campervan', a *cheisio eu helpu i integreiddio i mewn i'r gymuned drwy gyrchu sefydliadau cymunedol a'u cyfeirio at grwpiau cymorth penodol Hong Kong. Yn dilyn ein cyngor, roedd y teulu wedi gallu setlo i mewn i fyw yn ardal ein hawdurdod lleol ac ar y ffordd i fyw bywyd urddasol a diogel.*

...Oherwydd diffyg cyllid ar gyfer y math hwn o waith, fydden ni ddim yn gallu gwneud hyn eto yn y dyfodol ar ein pen ein hunain.

4. Canfyddiadau: cynrychiolaeth, cyngor a gwybodaeth gyfreithiol

Rhowch hyder, gwybodaeth iddyn nhw, canolfan lle gallan nhw fynd i ofyn am wybodaeth yn gwbl ddi-rwystr.

Cyfranogwr yn yr ymchwil

Ni chynhalion ni ymchwil penodol i'r gwasanaethau cynghori a gwybodaeth sydd ar gael ar gyfer pobl dan amod NRPF ond roedd y mater yn codi dro ar ôl tro yn ein sgysiau gyda phobl dan amod NRPF a gyda sefydliadau sy'n cynnig cymorth. Ategir yr adran hon gan ganfyddiadau o'n hymchwil diweddar i gymorth cyfreithiol mewnfudo yng Nghymru ³⁴.

4.1 Does dim digon o gyngor a gwybodaeth am hawliau a hawliadau pobl dan amod NRPF yng Nghymru

Mae maes NRPF yn un cymhleth a gall dynodi dyletswyddau, hawliau a hawliadau ofyn am wybodaeth arbenigol a/neu gyfreithiol. Ar wahân i ddyletswyddau gofal a chymorth awdurdod lleol, efallai bydd angen gwybodaeth arbenigol i osgoi darparu cymorth a allai effeithio'n negyddol ar ddarpar statws mewnfudo unigolyn. Gall cyrchu cyllid cyhoeddus lle nad oes hawl i wneud hynny olygu bod unigolyn yn torri amodau fisa, a gall gwneud cais am godi amod dim hawl i gyllid cyhoeddus effeithio ar ddarpar statws a statws presennol (gweler 4.4). Mae derbyn cyngor ar hawliau a hawliadau yn bwysig i bawb a effeithir gan amod NRPF, nid yn unig y rhai mewn perygl o fyw mewn tlodi neu yn byw mewn tlodi ac yn ddiymgeledd. Mae'r bygythiad o fyw yn ddiymgeledd yn golygu bod angen cyngor a/neu gynrychiolaeth ar frys, sy'n gywir ac weithiau'n wir arbenigol.

Does dim digon o sefydliadau yng Nghymru a all ddarparu cyngor arbenigol a chywir ar gyfer pobl dan amod NRPF ac ar gyfer sefydliadau eraill sy'n cynnig cymorth a gwasanaethau. Uchod, nodon ni'r angen am well hyfforddiant a dealltwriaeth o NRPF o fewn awdurdodau lleol a'r angen am berthynas waith well gyda'r trydydd sector ac **asiantaethau cymorth, cynghori a chyfreithiol arbenigol**. Mae'n hanfodol cael trydydd sector medrus ac ar gael, a gwasanaethau priodol ac am ddim er mwyn cynnig darpariaeth uniongyrchol ar gyfer pobl sydd mewn perygl o fod yn ddiymgeledd ac i gynorthwyo awdurdodau lleol sy'n gweithio i osgoi rhag i bobl fod yn ddiymgeledd neu lywio llwybrau allan ohono.

Mae datblygu arbenigedd am NRPF, rhannu sgiliau a chydweithio i gasglu tystiolaeth, gwella isadeiledd a darparu cymorth gwell, yn hanfodol yn y trydydd sector yn ogystal ag o fewn asiantaethau statudol.

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod unigolion a sefydliadau yn chwilio am gyngor ar ystod o faterion, yn ymestyn o ddeall pa fathau o gymorth a ystyrir yn gyllid cyhoeddus at ddibenion mewnfudo, hyd at lywio'r rhyngweithio cymhleth yn fynych rhwng materion mewnfudo, cyfiawnder cymdeithasol a chymorth. Mae pobl hefyd yn chwilio am ffynonellau cymorth sydd ar gael o awdurdodau lleol, asiantaethau prif ffrwd ac asiantaethau'r trydydd sector am faterion cyflogaeth, ac yn achos myfyrwyr

rhyngwladol, o'r prifysgolion. Yn yr holl feysydd hyn, nododd ymatebwyr anhawster i ddynodi ffynonellau cyngor a chyfarwyddyd. Sialensiau oedd y rhain i ddod o hyd i gyngor a gwasanaethau cyfreithiol gyda gallu sy'n gwneud atgyfeiriadau a gyda chynnal y gwaith achos estynedig a dwys sy'n angenrheidiol i lywio llwybrau allan o dlodi.

Mae llawer o wasanaethau cyngori arbenigol ar gyfer mewnfudwyr wedi'u cyfyngu i grwpiau arbennig o bobl, yn bennaf ceiswyr loches a ffoaduriaid neu bobl sydd wedi goresgyn trais domestig. Mae diffyg gwasanaethau cyngori ar gyfer pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan amod NRPF yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod pobl yn mynd heb gymorth ac yn cyfyngu ar allu sefydliadau cymorth ac awdurdodau lleol i weithredu camau rhagweithiol allan o fod yn ddiymgeledd

4.2 Mae angen cymorth cymunedol y gellir ymddiried ynddo ar frys i gyrchu gwasanaethau

"Ni fydd llawer o fudwyr yn cyrchu help gan y rhai sy'n ei gynnig, dydy llawer o fy ffrindiau ddim yn gwybod yr hyn ydy cyllid cyhoeddus a'r hyn sydd ddim."

Cyfranogwr yn yr ymchwil

Yn aml, soniodd pobl am ofni gofyn am help neu gyrchu gwasanaethau. Y rheswm pennaf dros fethu â chwilio am gymorth a chynngor oedd yr ofn (yn gyfiawn yn aml) y byddai gwneud hynny yn effeithio ar eu statws mewnfudo. Roedd pobl yn ofn gwneud hwn am ddau reswm.

Yn gyntaf, roedd llawer yn drwgdybio asiantaethau a allai ddarparu cymorth neu oedd â chyfrifoldeb i wneud hynny. Mynegodd rhai myfyrwyr rhyngwladol, er enghraifft, bryder y byddai chwilio am help gan eu prifysgol yn golygu y byddai'r brifysgol yn eu riportio i'r Swyddfa Gartref am dorri amodau fisa. Atgyfnerthodd y prosesau asesu ymwthgar a'r ceisiadau am fanylion banc, cyfrifon banc ac amgylchiadau personol, y ddrwgdybiaeth a'r ofn o fod yn destun archwiliad gan yr awdurdodau.

Yn ail, roedd llawer o bobl y siaradon ni â nhw yn amau na fyddai 'r cyngor am y cyllid cyhoeddus a dderbynion nhw gan sefydliadau prif ffrwd yn gywir. Fel y dywedodd un cyfranogwr:

Hyd yn oed pan ddaw'r cadarnhad maen nhw [y bobl sy'n ceisio cymorth] yn dal i'w amau. Mae angen e-bost ysgrifenedig arnyn nhw y gallan nhw ddibynnu arno a rhag ofn iddo godi yn y Swyddfa Gartref gallan nhw ddweud eu bod wedi gofyn a dyma oedd yr ymateb.

Rheswm arall dros beidio â chwilio am help oedd y gred na fyddai unrhyw gymorth yn cael ei gynnig. Teimlai rhai mai "gwleidyddion yn unig" oedd awdurdodau lleol heb wir fod yn awyddus i helpu na gwrando. Roedd hiliaeth a theimlad gwrth-fudwyr hefyd yn faterion dan sylw, a hynny'n meithrin y dybiaeth mai "dim ond am eu cymuned eu hunain" roedd sefydliadau prif ffrwd yn malio a doedden nhw ddim yn ystyried mewnfudwyr i fod yn rhan o'r gymuned. Pan ofynnwyd a fydden nhw'n fodlon gofyn i'r the awdurdod lleol am help. Dywedodd un cyfranogwr:

Dydw i ddim, achos petaen nhw am helpu...Rydyn ni'n amau popeth. Beth maen nhw wedi'i wneud hyd yn hyn? Dim byd, hyd yn oed gyda phrydau ysgol am ddim. Dydych chi ddim yn gallu eu cyrchu hyd yn oed.

Mae pobl yn fwy tebygol o chwilio am help o fewn eu cymuned eu hun, yn enwedig gan bobl sydd wedi cael profiadau tebyg. Roedd rhai o'r bobl y siaradon ni â nhw wedi cynnig cymorth neu lety brys i bob eraill dan amod NRPF er nad oedd ganddyn nhw lawer o incwm eu hunain. Siaradon ni ag un fenyw a ganfu ei hun mewn gwirionedd yn cynnig rhwydwaith cymorth anffurfiol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ar ôl rhannu gwybodaeth a'i profiadau ei hun. Roedd hi nawr yn teimlo wedi'i gorlwytho gyda cheisiadau am help a chynghor.

Nodon ni bod angen rhagor o ymgynghorwyr a gweithwyr cymorth banc bwyd gyda phrofiad o fod dan amod NRPF ac o'r cymunedau sydd wedi'u heffeithio, a'r angen i gynyddu ymddiriedaeth gyda rhai gydag amod NRPF. Mae hefyd angen sicrhau cymorth a gwasanaethau cymorth 'Estyn Allan' sydd wedi'u hymgorffori mewn cymunedau er mwyn goresgyn rwystrau rhag gallu cyrchu.

Soniodd un cyfranogwr am yr adeg y cyfeiriodd hi ddyn gyda thri o blant at fanc bwyd lleol:

Cyrhaeddodd fanc bwyd, dim ond pobl wyn welodd e, eu bryder cyntaf oedd "a ydy [enw'r cyfranogwr] newydd fy anfon i gael fy alltudio?"

Yn dilyn hyn, gwrthododd y dyn hwn gael ei atgyfeirio at unrhyw asiantaeth arall am help rhag ofn y byddai'n effeithio ar ei fisa.

4.3 Mae angen cymorth a diogelwch ar bobl o dan amod NRPF i arfer eu hawliau a'u hawliadau

Mynegodd y bobl y siaradon ni â nhw amharodrwydd i arfer eu hawliau hyd yn oed pan roedden nhw'n gwybod bod yr hawliau hynny yn cael eu torri. Sonion nhw am ddigwyddiadau perthynol yn cynnwys eu hunain neu bobl roedden nhw mewn cysylltiad â nhw. Ymhlith y rhain roedd ofn gorfodi hawliau llety er gwaethaf gorfod byw mewn cyflyrau ofnadwy neu gael eu troi allan yn anghyfreithlon a bod yn gyndyn i herio gwahaniaethu, diswyddo annheg a thorri hawliau cyflogaeth.

Dywedodd un fenyw y siaradon ni â hi ei bod wedi cysgu mewn ffreutur lle bu'n gweithio er mwyn iddi allu cychwyn gwaith am chwech o'r gloch y bore a hynny ar ôl shifft o 12 awr. Cawson ni enghraifft arall o ddyn a gafodd ei ddiswyddo o'i swydd mewn ffatri ar ôl cael adwaith alergaidd i gnau daear, alergedd nad oedd yn ymwybodol ohono. Pan gafodd gyngor i apelio yn erbyn y penderfyniad, gwrthododd oherwydd bod arno ofn gael ei alltudio. Soniodd rhywun arall am fenyw oedd wedi dioddef trawma meddygol ond yn rhy ofnus i wneud cwyn yn erbyn yr ysbyty dan sylw.

Soniodd pobl hefyd eu bod yn ofni cyrchu gwasanaethau rhag iddyn nhw orfod talu oherwydd eu statws. Clywson ni dystiolaeth anecdotaidd o fenywod yn rhoi genedigaeth gartre heb fod bydwaig yn bresennol, a hynny i osgoi gorfod talu am ofal ysbyty.

4.4 Mae'r argyfwng ym maes cyngor a chynrychiolaeth yn rhwystr i lywio llwybr allan o gyflwr diymgeledd

Oherwydd cymhlethdod cyfraith mewnfudo, mae mynediad i gyngor cyfreithiol yn rhan annatod a hanfodol o ddod o hyd i lwybrau allan o fod yn ddiymgeledd. Mae'n bosibl, mewn rhai amgylchiadau i wneud cais am newid amodau a fydd yn codi cyfyngiad NRPF, ond gall hyn gael effaith negyddol ar lwybr unigolyn i fod yn breswlydd sefydlog ac yn aml, mae angen cyngor arbenigol. (Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynnig dolen gyswllt i ffurflen y Swyddfa Gartref ar-lein ar newid amodau heb rybudd o'r darpar effaith hwn³⁵.)

Gall darpariaeth a chyngor cyfreithiol hefyd gynorthwyo ceisiadau am gonsesiynau megis Consesiwn Cam-drin Domestig (yr enw blaenorol oedd Consesiwn Trais Domestig Amddifadrwydd). Mae'r consesiwn yn caniatáu pobl ar fisa partner neu briod sydd wedi dianc rhag cam-drin domestig i wneud cais am aros am gyfnod amhenodol ac felly, yn gallu cyrchu budd-daliadau. Gall cymorth cyfreithiol hefyd helpu pobl i wneud ceisiadau er mwyn unioni eu statws mewnfudo, a'u rhoi ar lwybrau preswlydd sefydlog a chynnig hawliau i'w galluogi i weithio, rhentu tai a symud i fywyd mwy sefydlog a chynladwy. Mae'r holl lwybrau hyn yn darparu pasbort i hawliau ac yn y pen draw yn helpu i ddileu angen pobl am gymorth. Yn ogystal â bod yn llesol ar gyfer y bobl dan sylw, mae hyn yn lleihau costau i awdurdodau lleol a'r sector elusennol.

Mae diffyg dybryd o wasanaethau cyfreithiol yng Nghymru. Nodwyd yn ymchwil blaenorol Sefydliad Bevan³⁶ fod Cymru wedi colli bron hanner ei safleoedd oedd yn cynnig cymorth cyfreithiol ym maes mewnfudo yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Er hynny, dydy cymorth cyfreithiol ddim ar gael ar gyfer achosion heb fod yn achosion lloches ar wahân i amgylchiadau eithriadol ac mae tystiolaeth o'n hymchwil i gymorth cyfreithiol yn dangos ei bod yn annhebygol iawn y byddai achosion sy'n dod o dan ECF (Cyllido Achosion Eithriadol) yn cael eu hystyried. Mae capasiti mwyafrif o'r gwasanaethau cyfreithiol sy'n parhau yng Nghymru yn llawn i'r ymylon ac ar hyn o bryd dydyn nhw ddim yn derbyn unrhyw atgyfeiriadau.

Prin iawn ydy'r nifer o asiantaethau sy'n cynnig cyngor cyfreithiol o ran mudwyr dan amod NRPF. Mynegodd asiantaethau sy'n cynnig cyngor cyffredinol neu gyngor sylfaenol ar fewnfudo bryder nad oedden nhw'n gallu cyfeirio at achosion cymhleth ar gyfer cyngor arbenigol uchel eu lefel neu ar gyfer gwaith achos.

Pwysleisiodd y ganolfan Cyngor ar Bopeth, oedd yn rhan o'r astudiaeth achos uchod, bwysigrwydd cael mynediad i gyngor uwch ei lefel ar gyfer achosion mwy cymhleth:

Roedden ni'n ddiolchgar mai lefel 1 oedd y cyngor angenrheidiol ar gyfer y teulu oherwydd os nad oedd, dim ond ychydig o asiantaethau oedd yn gallu cynorthwyo'r math hwn o fisa, na chwaith darparu'r lefel o gymorth parhaus roedd ei angen ar yr adeg honno.

Dywedodd yr un sefydliad wrthon ni bod y diffyg cyngor cyfreithiol ar adegau wedi eu hatal rhag cyflwyno ceisiadau newid amodau. Gellir gwneud y ceisiadau hyn i godi amod heb hawl i gyllid cyhoeddus pan na all rhywun sydd yn ddiymgeledd neu mewn perygl dybryd o fod yn

ddiymgeledd, neu heb resymau cymhellol ddychwelyd i'w mamwlad¹. Mae peryglon y gallai cais o'r fath ar gyfer ar llwybr bywyd preifat teuluol neu Wladolyn Prydeinig Hong Kong (Tramor) effeithio'n negyddol ar eu llwybr i fod yn breswlydd sefydlog. Er i'r asiantaeth allu darparu cymorth gyda'r ceisiadau hyn, doedden nhw ddim, ar gyfer achosion mwy cymhleth, yn gallu dod o hyd i'r cyngor cyfreithiol angenrheidiol o ran y risgiau hyn. Roedd hyn yn golygu nad oedden

¹Ar adeg ein hymchwil, roedd ceisiadau newid amodau ar gael yn unig i bobl ar lwybrau bywyd preifat/teuluol a BN(O) i fod yn breswylwyr sefydlog. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2023 cafodd achos yn yr Uchel Lys ["*PA & NA (by her litigation friend & mother PA) v SSHD*"] fod y Swyddfa Gartref yn gweithredu ei ddisgresiwn yn anghyfreithlon a chyhoeddwyd polisi interim o ran ymgeiswyr ar fisas eraill.

nhw'n gallu cynnig y math hwn, er yn ffurf syml ac effeithiol, o help. Ar adeg yr ymchwil, roedd yr un sefydliad wedi bod yn gweithio gyda'r cyngor lleol i gynorthwyo un teulu ond wedi cael eu gorfodi i dynnu eu cymorth yn ôl gan iddyn nhw fethu dod o hyd i'r cyngor cyfreithiol priodol:

5. Prydau ysgol am ddim yng Nghymru

Astudiaeth achos Rhif Dau

Ym mis Gorffennaf, cysylltodd ein timau gwasanaethau cymdeithasol a thai lleol i ofyn am gymorth i *deulu y maen nhw'n eu cynorthwyo* gyda'i gilydd. Mae gan y cleient fisa i raddedigion, mae gan ei briod fisa dibynnydd ac mae ganddyn nhw fabi newydd-anedig â pharlys yr ymennydd. *Mae'r holl deulu dan amod NRPF.*

Mae'r cyngor wedi bod yn cynorthwyo'r teulu hwn drwy dalu eu rhent a darparu bwyd drwy ddarpariaethau'r gwasanaethau cymdeithasol oherwydd eu bod yn ddiymgeledd ynghyd ag anghenion gofal a chymorth ar gyfer y babi. Fodd bynnag, oherwydd yr amod NRPF, roedd y cyngor yn cael trafferth i gynnig cymorth yn y tymor hirach gan *nad oedden nhw'n gallu helpu'r teulu* i gyrchu budd-daliadau, sicrhau llety â digon o le ar gyfer eu cyfarpar iechyd arbenigol na chymorth pellach gan yr awdurdod lleol.

Oherwydd hyn, atgyfeiriodd y cyngor y teulu aton ni yn y gobaith o gael help i godi'r amod NRPF. Roedd y cyngor yn cael trafferth i ddod o hyd i sefydliadau perthnasol a allai gynnig cymorth a doedden nhw ddim yn gwybod pa opsiynau oedd ar gael *i'r teulu o ran eu statws mewnfudo ac amod NRPF.* *Pan siaradon ni gyda'r teulu, cadarnhaon ni nad oedden nhw, ar yr adeg honno yn gymwys i ofyn am gael amrywiad yn eu hamodau oherwydd y math o fisa oedd ganddyn nhw.* Felly, yn ôl cyngor ein tim arbenigol mewnol, dim ond dau ddarpar lwybr oedd yn agored i ni eu cynnig *i'r teulu*. Ein cyngor *i'r cleient oedd* y posibilrwydd o symud ymlaen i sicrhau fisa gweithiwr medrus a cheisio am hawl i aros ar sail hawliau dynol oherwydd cyflwr iechyd y plentyn.

Gan fod cyngor ar sail hawliau dynol yn golygu haen uwch o gyngor, yr unig beth *roedden ni'n gallu ei wneud oedd cyfeirio'r cleient at gyngor mewnfudo arbenigol pellach.* Fodd bynnag, *cyfyng iawn ydy'r gronfa o ymgynghorwyr arbenigol y gallwn ni gyfeirio atyn nhw.* *Mae'n ymddangos nad oes un o'r elusennau yn delio gyda'r math hwn o fisa na chwaith yn gweithredu yng Nghymru.* Rydyn ni wedi atgyfeirio'n cleient at *Coram, ond dim ond yn Lloegr maen nhw'n gweithredu.* Felly, yr unig beth roedden ni'n gallu ei gynnig oedd *i'r cleient a'r cyngor gysylltu â Chanolfan y Gyfraith ym Mryste.*

Ym mis Hydref, daeth y gwasanaethau cymdeithasol yn ôl aton ni i ddweud eu bod yn dal i gael trafferth i ddod o hyd i gymorth ar gyfer y teulu. Fodd bynnag hysbyswyd y *cleient gan Ganolfan y Gyfraith ym Mryste y gallai wneud cais i amrywio'r amodau aros* (yn seiliedig ar achos llys diweddar sef "PA & Anor, R (on the application of) v SS Home Department" [2023] EWHC 2476 (Admin)). Gofynnodd y gwasanaethau cymdeithasol *am ein help i wneud hyn, ac rydyn ni'n barod i wneud gan mai cymorth lefel 1 ydy e.* Fodd bynnag, *roedd rhaid i ni atgyfeirio'r teulu yn ôl i Ganolfan y Gyfraith ym Mryste i gael cyngor lefel 2 a sut y gallai gwneud cais amdano, ac o bosib llwyddo, i godi amod NRPF fod yn effeithio ar ei fisa yn gyffredinol.* *Ni allwn gynorthwyo'r teulu ymhellach yn hyn o beth nes i ni gael cadarnhad bod y cyngor hwn wedi cael ei roi.* Hefyd, does dim *un asiantaeth arall sy'n cynnig cyngor am ddim ar gael i roi cyngor i'r cleient*

Felly, y sefyllfa heddiw ydy bod y teulu yn dal i aros am gyngor a chymorth pellach yn y *oobaith o ddod o hyd i ddatrasiad o'u sefyllfa avfredol.*

Mae Erthygl 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan bod gan bob unigolyn ifanc yr hawl i "safon byw digonol ar gyfer datblygiad

corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plentyn... Ni ddylai unrhyw unigolyn ifanc yn y DU fod ar eu cythlwg a mae prydau ysgol am ddim yn chwarae *rhan fechan i geisio gwireddu'r hawl*.³⁷

Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddull 'y plentyn yn gyntaf, y mudwr yn ail' o fynd ati yng Nghymru. mae hyn yn golygu y dylid blaenoriaethu anghenion, lles a hawliau plant yn hytrach na'u statws mewnfudo. Mae Mesur Hawliau Plant ac Unigolion Ifanc (Cymru) 2011 yn ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith Cymru³⁸. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion i roi'r sylw dyladwy i'r Confensiwn wrth arfer eu swyddogaethau, a rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae'r Confensiwn yn blaenoriaethu ymrwymiad i gynnal lles pennaf y plentyn ac yn gosod allan hawliau sylfaenol.

Mae Erthygl 2 o'r UNCRC³⁹ yn egluro bod hawliau'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn. Mae angen llofnodwyr ar ran gwladwriaethau i barchu a diogelu'r hawliau hyn:

...waeth beth fo hil, lliw, rhywedd, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol, ethnig neu gymdeithasol, anabledd, statws genedigol neu unrhyw statws arall y plentyn neu ei rhieni/rieni neu warchodwr cyfreithiol.

Mae'n amryfusedd, felly, na chaiff llawer o blant mewn teuluoedd isel eu hincwm yng Nghymru a effeithir gan NRPF gynnig prydau ysgol am ddim ar sail statws mewnfudo eu rhieni yn unig, tra bod hawl gan eu cyfoedion i bryd twym amser cinio

5.1 Pwysigrwydd prydau ysgol am ddim

Mae cyfoeth o dystiolaeth yn dangos bod darparu prydau ysgol am ddim yn cael effaith llesol sylweddol ac amrywiol ar blant sy'n eu derbyn. Ar wahân i sicrhau bod plentyn yn cael o leiaf un pryd maethlon y dydd, mae prydau ysgol am ddim yn gwella presenoldeb a chyflawniad addysgol⁴⁰.

Mae prydau ysgol am ddim cynhwysol yn fodd lle gall plant gael cyfle cyfartal i gyfranogi mewn addysg. Cafodd gwerthusiad o Beilot Llywodraeth Cymru o Brydau Ysgol am Ddim yn 2010 fod prydau ysgol am ddim cynhwysol yn gwella cyflawniad plant o deuluoedd llai cyfoethog na chyflawniad plant o deuluoedd cefnog⁴¹. Effaith hyn ydy lliniaru effaith tlodi ar lefelau cyrhaeddiad a gostwng y stigma sy'n perthyn i dderbyn prydau ysgol am ddim ar sail asesiad incwm⁴².

5.2 Cymhwysra ar gyfer derbyn prydau ysgol am ddim yng Nghymru

Nid yw prydau ysgol am ddim yn cael eu hystyried yn gyllid cyhoeddus at ddibenion mewnfudo. Mae Cymru yn rhannol drwy'r broses o weithredu hawl i brydau ysgol am ddim ar gyfer pob plentyn mewn ysgolion cynradd ac ar gyfer plant oed meithrin sy'n mynychu ysgol a gynhelir. Cytunwyd ar gynllun i sicrhau'r ddarpariaeth hon erbyn 2024 fel rhan o'r cytundeb cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ym mis Rhagfyr 2021⁴³.

Mae darpariaeth yn cael ei ddatblygu mewn camau ar draws y wlad ac yn aml, cyfeirir ato fel 'y cyflwyniad cyffredinol' o brydau ysgol am ddim. Er bod y datblygiad hwn yn gyffredinol fesul grŵp blwyddyn ar draws Cymru yn ôl ffrâm amser sefydlog, amodau ysgolion unigol sy'n gosod a phennu cyflymder y datblygiad fesul ardal⁴⁴. Mae hyn yn galluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i fesur y galw a lle bo angen gynyddu capasiti arlwyyo ysgol.

Mae disgyblion yn yr adran Dderbyn, Blwyddyn Un, Blwyddyn Dau a Thri eisoes yn elwa o'r datblygiad ac mae ail gyfnod y datblygiad ar gyfer disgyblion Blwyddyn Tri, Pedwar, Pump a Chwech eisoes ar y gweill⁴⁵. Bydd pob plentyn mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn derbyn pryd ysgol am ddim erbyn 2024. Mae'r datblygiad yn berthnasol ar gyfer pob plentyn, gan gynnwys y rhai o deuluoedd dan amod NRPF.

Dydy plant y blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion nad oes, hyd yn hyn, ddarpariaeth ar gyfer prydau ysgol am ddim, na disgyblion ysgolion uwchradd, ddim yn derbyn y prydau ysgol am ddim cyffredinol. Mae asesiadau cymhwysra ar gyfer y plant hyn yn dibynnu ar dderbyn budd-daliadau, na all rhieni nad oes ganddyn nhw hawl i gyllid cyhoeddus eu cyrchu. Mae hyn yn golygu mai dim ond lle mae eu hawdurdod lleol yn ymestyn eu cymhwysra drwy ddefnyddio ei ddisgresiwn i beidio â chodi tâl am brydau, y gall plant o deuluoedd isel eu hincwm a effeithir gan NRPF gael cyrchu prydau ysgol am ddim. Dydy hyn ddim yn berthnasol i blant ceiswyr lloches sy'n derbyn cymorth ariannol gan y Swyddfa Gartref, sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i arfer eu disgrisiwn lle mae plant yn cael eu heffeithio gan NRPF.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i arfer eu disgrisiwn i ddarparu Prydau Ysgol am Ddim i unrhyw blentyn y mae statws mewnfudo eu rhieni yn golygu nad oes unrhyw hawliad awtomatig. Gall awdurdodau lleol benderfynu peidio â defnyddio eu grym o dan Adran 512ZA o Ddeddf Addysg 1996 i godi tâl am brydau ysgol ar gyfer plant o deuluoedd lle mae yna *amod NRPF*.⁴⁶

Canfu ein hymchwil nad ydy llawer o blant o deuluoedd isel eu hincwm a effeithir gan NRPF, hyd yn oed pan fydd awdurdodau lleol yn arfer y disgrisiwn hwn, oherwydd y dull y mae'n cael ei hyrwyddo a'i asesu, ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim.

Brecwastau am ddim

Cyflwynwyd Menter Brecwast am Ddim yng Nghymru ym mis Medi 2004 a'i datblygu yn ystod y blynyddoedd dilynol. Mae'n cael ei diogelu drwy ddeddfwriaeth, gydag Adran 88 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)(2013) yn gosod

dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu brecwast am ddim i bob plentyn mewn ysgol gynradd. Mae'r ddyletswydd hon yn ddibynnol ar yr ar amodau canlynol:

- Rhaid i gorff llywodraethol yr ysgol wneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod lleol.
- Dydy'r ddyletswydd ddim yn weithredol tan 90 diwrnod ar ôl gwneud y cais.

Rhaid i frechwastau a ddarperir gan yr awdurdod lleol fod:

- am ddim
- ar gael ar dir yr ysgol, ac
- ar gael cyn cychwyn y diwrnod ysgol.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan bod:

Gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i benderfynu ar ffurf cynnwys y brecwast yn amodol ar gydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Safonau a Gofynion Maethol) (Cymru) 2013 ('Rheoliadau Bwyta'n Iach') sy'n rheoleiddio'r bwyd a'r diod a ddarperir mewn ysgolion a gynhelir.⁴⁷

Does dim rhaid i awdurdodau lleol ddarparu brecwast am ddim os na fydd y corff llywodraethol yn gwneud cais ysgrifenedig i wneud hynny, a does dim dyletswydd ar gorff llywodraethol i wneud hynny. Gall yr awdurdod lleol hefyd wrthod i ddarparu brecwastau neu roi'r gorau i ddarparu brecwastau os bydd yr awdurdod yn ystyried y byddai'n "afresymol" i'w darparu. Mae'r Ddeddf yn darparu diffiniad o "afresymol", ond mae'r canllawiau yn cyfeirio at nifer o ffactorau y gellid eu hystyried, gan gynnwys y galw, argaeledd lleoliad neu gyfleusterau addas ac argaeledd staff goruchwyllo.

5.3 Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim ar draw y DU

Lloegr

Yn ystod y pandemig, fe ymgyrchon ni i sicrhau y gallai teuluoedd mudol isel eu hincwm heb fynediad i'r cymorth lles arferol, gael prydau ysgol am ddim hefyd.

Enillon ni, a nawr mae gan deuluoedd mudwyr isel eu hincwm un peth llai i boeni amdano. Ni ddylai plant fynd heb fwyd oherwydd statws mewnfudo eu rhieni⁴⁸.

Gwefan y Gymdeithas Blant (Childrens Society)

Yn 2022, ar ôl ymgyrch hir a phoblogaidd i wella darpariaeth o brydau ysgol am ddim, cyhoeddodd yr Adran Addysg (DfE) estyniad parhaol yn Lloegr o gymhwystra ar gyfer pryd ysgol am ddim i blant a effeithiwyd gan NRPF. Mae cymhwystra ar gyfer y cyfryw blant yn amodol i drothwyon incwm blynyddol ac yn gwahaniaethu yn ôl lleoliad ac yn ôl nifer y plant yn y teulu. Mae trothwy incwm yn amrywio o £22,700 y flwyddyn ar gyfer teuluoedd gydag un plentyn tu allan i Lundain hyd at £34,800 y flwyddyn ar gyfer

teuluoedd o fewn Llundain gyda dau neu fwy o blant⁴⁹. Mae'r hawl i hawlio prydau ysgol am ddim yn Lloegr yn ymestyn i bobl heb statws mewnfudo wedi'i ddogfennu.

Mae disgyblion cynradd yn yr adran Dderbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn elwa o brydau ysgol am ddim cynhwysol. Mae rhai awdurdodau lleol yn Lloegr yn darparu prydau ysgol am ddim cynhwysol ar gyfer holl ddisgyblion cynradd⁵⁰.

Yr Alban

Mae'r Alban yn darparu prydau ysgol am ddim cynhwysol ar gyfer holl blant oed cynradd, blynyddoedd 1 i 5. Ar ôl yr oedran hwn, mae cymhwysra yn dibynnu ar dderbyn budd-daliadau arbennig. Mae plant yn y blynyddoedd cynnar a rhai'n derbyn gofal plant hefyd yn derbyn un pryd y dydd am ddim, a all fod yn frecwast neu ginio ganol dydd⁵¹.

Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae bod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn dibynnu ar dderbyn budd-daliadau arbennig a ystyrir yn gyllid cyhoeddus. Mae plant â datganiad o Anghenion Addysgu Arbennig ac angen deiet arbennig neu mewn ysgol breswyl arbennig a phlant i rieni sy'n derbyn cymorth o dan Ddeddf Ymfudo a Lloches hefyd yn gymwys.⁵²

5.4 Y berthynas rhwng Grant Hanfodion Ysgol a phrydau ysgol am ddim

Mae gan gymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim goblygiadau i fudd-daliadau eraill sy'n darparu cymorth gwerthfawr i blant sy'n byw mewn tlodi.

Grant Llywodraeth Cymru ydy Grant Hanfodion Ysgol (yr enw blaenorol arno oedd Grant Datblygu Disgyblion) sydd wedi'i lunio i helpu teuluoedd isel eu hincwm gyda chostau hanfodol o anfon plentyn i'r ysgol. Nid cyllid cyhoeddus at ddibenion mewnfudo mohono. Gellir gwneud cais am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ysgol a chyn i'r ysgol ail-agor ar ôl gwyliau'r haf. Gellir defnyddio'r Grant i brynu dillad ysgol (y gost fwyaf sy'n gysylltiedig ag ysgol⁵³), cit chwaraeon, cotiau, esgidiau, papur, cyfarpar TG, triplau ysgol, gweithgareddau megis dysgu offeryn cerdd. Gall Grant Hanfodion Ysgol ynghyd â phrydau ysgol am ddim helpu i ostwng cyllideb teulu yn sylweddol neu fe all gynnig mynediad i blentyn i ddiwylliant, dysgu a gweithgareddau cymdeithasol na fyddai'n bosibl fel arall.

Ar gyfer y flwyddyn academiaidd ddiwethaf yn unig, cynyddodd Llywodraeth Cymru Grant Hanfodion Ysgol (SEG) i £225 y plentyn ac i £300 ar gyfer plant yn dechrau ysgol uwchradd er mwyn lleddfu pwysau costau byw⁵⁴. Ar hyn o bryd, gall y rhai sy'n gymwys wneud cais am grant o £125 neu £200 y plentyn yn eu tro⁵⁵. Yn aml, ond ddim bob amser, mae derbyn SEG yn dibynnu ar dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar BRPF yn datgan:

Dydy grantiau ar gyfer dillad ysgol ddim yn cyfrif fel Cyllid Cyhoeddus at ddibenion mewnfudo. Rhoddir cyllid i ysgol fel rhan o'r Grant Datblygu Disgyblion. Mae

cymhwysra yn dibynnu ar yr awdurdod lleol. Mewn rhai ardaloedd cysylltir grantiau *ar gyfer dillad ysgol â chymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim, felly mae'r un* gwaharddiadau yn berthnasol. Mewn ardaloedd awdurdodau eraill mae grantiau ar gyfer dillad ysgol ar gael i bob disgybl y mae eu rhieni dan amod NRPF⁵⁶.

6. Canfyddiadau: prydau ysgol am ddim

"Mae darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn, beth bynnag fo'u cenedligrwydd a'u statws mewnfudo, yn hybu cydraddoldeb a thegwch. Mae'n sicrhau bod pob plentyn, waeth beth fo'i gefndir yn cael mynediad at fanteision addysgiadol sy'n helpu i feithrin cymdeithas fwy cynhwysol a chyfiawn ac yn helpu'r plentyn i beidio â themlo'n chwithig neu'n israddol. Mae'n bwysig nodi bod rhannu pryd o fwyd gyda'ch gilydd yn cyfoethogi bywyd cymdeithasol plant, yn meithrin dealltwriaeth, cael eich derbyn, a chyfnewid diwylliannol ymhlith myfyrwyr o wahanol genhedloedd. Mae hefyd yn hybu ymdeimlad o berthyn, empathi, a pharch at amrywiaeth."

Cyfranogwr i'r prosiect (myfyriwr rhyngwladol â phlant)

Mae'r dyfyniad uchod yn disgrifio gwerth cyflwyno prydau ysgol am ddim yn gyffredinol i blant mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Lle mae plant wedi'u cynnwys yn y broses gyflwyno, gallan nhw fwyta gyda'u cyfoedion heb y stigma sy'n gysylltiedig â chael budd-dal sy'n seiliedig ar incwm, a heb gael eu nodi'n wahanol.

Fe wnaethon ni ganfod nad ydy anogaeth gan Lywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i blant a fyddai fel arall yn gymwys oni bai am statws mewnfudo eu rhieni, ddim yn cael yr effaith a ddymunir. Mae plant y mae'r amodau NRPF yn effeithio arnyn nhw'n yn cael eu heithrio o'r prydau y bydden nhw'n yn eu derbyn pe na bai'r NRPF yn effeithio arnyn nhw, ac mae eu rhieni yn colli allan ar gymorth gwerthfawr gyda chyllideb y cartref.

Mae'r cyflwyniad cyffredinol yn golygu bod plant o'r un cartref sydd â'r un mynediad cyfyngedig at fwyd yn cael profiadau amser cinio gwahanol iawn. Dywedodd un cyfranogwraig wrthyn ni fod dwy o'i merched o oedran cynradd ac yn cael prydau ysgol am ddim, ond dydy ei merch hynaf yn yr ysgol uwchradd ddim yn derbyn hynny. Ni allai'r ferch hynaf ddeall yr amod 'dim hawl i arian cyhoeddus', na pham nad oedd hi'n derbyn cinio ysgol am ddim.

6.1 Nid yw gwefannau awdurdodau lleol yn rhoi gwybodaeth eglur am y prydau ysgol am ddim i bobl sy'n cael ei heffeithio gan NRPF

"Mae angen gwybodaeth am wasanaethau ar wefan y cyngor."

Cyfranogwr i'r prosiect

Fe wnaethon ni adolygu gwefannau awdurdodau lleol i ddechrau i weld a oedden nhw'n cynnig prydau ysgol am ddim i blant o gartrefi incwm isel yr effeithir arnyn nhw amod NRPF. Mae gwefannau yn ffordd hawdd i rieni gael gwybodaeth am brydau ysgol am ddim. Yn dilyn hyn, fe wnaethon ni gysylltu ag awdurdodau lleol i egluro a gwirio'r wybodaeth a oedd yn cael ei arddangos ar eu gwefannau. Roedden ni'n gweld anghysondebau rhwng gwefannau a'r hyn y dywedodd awdurdodau lleol wrthyn ni eu bod yn ei ddarparu.

Nid oedd yr un o dudalennau gwe awdurdodau lleol am brydau ysgol am ddim yn nodi bod prydau ysgol am ddim ar gael i blant yr effeithir arnyn nhw gan amod NRPF. Roedd

gwefan un awdurdod yn cynnwys tudalen yn benodol ar gyfer cymorth sydd ar gael i bobl ag NRPF. Roedd y dudalen hon yn nodi y gall plant yr effeithir arnyn nhw gan NRPF gael prydau ysgol am ddim, ond ni chafodd y wybodaeth ei hailadrodd ar y dudalen prydau ysgol am ddim ei hun.

Mae pob awdurdod lleol, ac eithrio of Caerdydd ², yn datgan ar eu gwefannau bod plant o gartrefi sy'n derbyn cymorth o dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 (cymorth lloches y Swyddfa Gartref) yn gymwys i wneud cais am brydau ysgol am ddim. Mae hwn yn hawl yng Nghymru ac mae'n ymwneud ag un grŵp yn unig o blant y mae NRPF yn effeithio arnyn nhw ⁵⁷.

Nid oedd o fewn cwmpas y prosiect hwn i archwilio'r cymorth a roddir i rieni gan ysgolion unigol, er inni glywed am nifer fach o achosion unigol yn cael eu cyfeirio drwy ysgolion neu drwy gynghorwyr lleol y mae'r gwasanaethau cymorth yn y gymuned yn cysylltu â nhw.

Dyweddodd rhai cynghorau wrthyn ni, naill ai drwy eu llinell gymorth prydau ysgol am ddim neu ymatebion i'n hymchwil, eu bod yn defnyddio disgrisiwn i ddarparu prydau ysgol am ddim i blant y mae NRPF yn effeithio arnyn nhw. Fodd bynnag, ymddengys mai darpariaeth gyfyngedig iawn ydy hon, a ddyfernir fesul achos.

Mewn rhai achosion lle dywedodd awdurdodau lleol wrthym eu bod yn darparu prydau ysgol am ddim i blant yr effeithiwyd arnyn nhw gan NRPF, datgelodd archwiliad pellach eu bod yn cyfeirio at blant pobl sy'n ceisio noddfa, gan gynnwys rhai ar gymorth lloches. Mae derbyn cymorth lloches y Swyddfa Gartref ⁵⁸ eisoes yn un o'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru ⁵⁹. Mae'r ymatebion hyn yn nodi y gallai rhai o staff y cyngor gredu bod yr awdurdod yn defnyddio ei ddisgrisiwn mewn achosion lle mae gan blant hawl mewn gwirionedd i gael prydau ysgol am ddim. Mae'n bosibl eu bod hefyd yn defnyddio dull 'cyfyng', heb fod yn ymwybodol eu bod yn methu ag ystyried anghenion pob grŵp o blant y mae NRPF yn effeithio arnyn nhw.

Lle mae awdurdodau lleol yn arfer eu disgrisiwn i beidio â chodi tâl am brydau a ddarperir i blant o gartrefi incwm isel y mae NRPF yn effeithio arnyn nhw, fe ddylen nhw gymhwyso hyn ar draws yr holl grwpiau y mae NRPF yn effeithio arnyn nhw. Am y rhesymau a amlinellir yn [4.2](#) uchod a [6.4](#) isod, mae'n bwysig bod yr argaeledd hwn yn cael ei gyhoeddi mewn datganiad ar brif wefan prydau ysgol am ddim y cyngor, a'i fod yn cael ei ategu gan ganllawiau clir a dolen gswllt i broses ymgeisio sy'n hygyrch a theg. Mae angen i gynghorau hefyd weithio'n agos gydag ysgolion, asiantaethau cynghori, a sefydliadau sy'n cynnig cymorth i fudwyr, i sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o argaeledd prydau ysgol am ddim a'u bod yn cael cymorth i wneud cais.

6.2 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru yn eithrio plant o brydau ysgol am ddim ar sail eu statws mewnfudo

Fel y dengys y dystiolaeth yn [6.1](#) uchod, dydy'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddim yn darparu prydau ysgol am ddim i blant y mae NRPF yn effeithio arnyn nhw. Yn ogystal, dydy rhai awdurdodau lleol, sy'n credu eu bod yn darparu prydau ysgol am ddim i blant

² Gwiriwyd Chwefror 2024

yr effeithir arnyn nhw gan NRPF, ddim yn gwneud hynny mewn gwirionedd, neu eu bod ddim ond yn darparu prydau i un neu ddau o blant sydd wedi cael cymorth i oresgyn y rhwystrau a ddisgrifir uchod ac yn [6.3](#) isod.

Dydy hi ddim yn ymddangos bod pob awdurdod lleol yn ymwybodol o'r rhwystrau i fynediad. Dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn darparu prydau ysgol am ddim i bobl ag amod NRPF, er gwaethaf tystiolaeth i ddangos nad oedd y bobl yr effeithiwyd arnyn nhw'n gallu cael gafael ar hyn. Ni allai eraill roi ymateb clir am eu polisi ar brydau ysgol am ddim a NRPF.

6.3 Mae systemau ar gyfer gwneud cais am brydau ysgol am ddim yn eithrio pobl gydag amod NRPF hyd yn oed pan fyddan nhw ar gael

Ddylai plant ddim gorfod talu am ein camgymeriadau ni.

Cyfranogwr i'r prosiect, yn trafod prydau ysgol am ddim.

Eglurodd y bobl y siaradwyd â nhw nad oedden nhw'n gallu cael mynediad i brydau ysgol am ddim trwy wefannau'r cyngor. Dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn cynnig prydau ysgol am ddim i blant o gartrefi yr effeithir arnyn nhw gan amod NRPF ond bod ganddyn nhw ffurflenni cais a oedd yn gofyn am dystiolaeth os oedden nhw'n derbyn budd-daliadau, heb unrhyw opsiwn i ddarparu gwybodaeth am statws mudwyr neu NRPF.

Dywedodd un sefydliad wrthym fod teuluoedd wedi gorfod 'goresgyn sawl rhwystr' wrth geisio gwneud cais am brydau ysgol am ddim. Cyfeiriwyd at ffurflenni cais ar-lein nad oedden nhw'n cynnwys ceisiadau gan rieni gydag amod NRPF, oedd yn golygu eu bod yn gorfod cysylltu â'r awdurdod lleol i gael ffurflen bapur. Mae hyn yn creu rhwystr ychwanegol i fynediad i grŵp sydd eisoes wedi'i wahardd. Os oedd rhieni'n amheus a oedden nhw'n gymwys, mae prosesau ymgeisio o'r fath yn tanlinellu'r amheuan hynny.

Esboniodd un cyfranogwraig sut y cysylltodd hi â'i hawdurdod lleol i wneud cais am brydau ysgol am ddim i'w phlant oherwydd nad oedd y ffurflen ar-lein yn caniatáu iddi symud ymlaen y tu hwnt i'r cam a oedd yn gwirio cymhwysedd oherwydd eu bod yn gofyn am dystiolaeth ynglŷn â derbyn budd-daliadau. Cysylltodd hi â chynghorydd lleol a ddarparodd ffurflen a gofyn am dystiolaeth o slipiau cyflog, datganiadau banc, cyfalaf a buddsoddiadau, ac unrhyw waith papur i gyfiawnhau angen ei phlant am brydau ysgol am ddim. Darparodd bopeth a ofynnwyd, ond ni chafodd unrhyw adborth am ei chais.

6.4 Diffyg gwybodaeth a phryderon am statws mudwyr yn rhwystro llawer gydag amod NRPF rhag gwneud cais am brydau ysgol am ddim

Gall prydau ysgol am ddim wneud gwahaniaeth sylweddol i gyllideb y cartref. Maen nhw felly yn ffynhonnell hanfodol o gymorth i bobl gyda chostau byw uwch ac i helpu i rwystro amddifadedd. Doedd pawb y siaradwyd â hwy ddim yn cydnabod gwerth

prydau ysgol am ddim ac yn aml wedi cael eu digalonni gan brosesau ymgeisio oedd yn achosi rhwystredigaeth. Dyma eiriau un fam:

Rwy'n cofio pan oedd [gweithwraig banc bwyd] yn arfer crybwyll prydau ysgol am ddim wrtha i, doeddwn i ddim wir yn sylweddoli'r pwysigrwydd oherwydd roeddwn i am dalu am ginio [yn yr ysgol] ar gyfer fy mhlant. Doeddwn i ddim yn sylweddoli'r *effeithiau...* *Ond yna fe eisteddais i lawr un diwrnod a dechreuais gyfrifo pan* ddeuai'r bil y byddai hynny'n £115. Ac yna meddyliais, fod gen i dair merch ac y byddan nhw'n mynd i'r ysgol. Felly, bydd disgwyl i mi dalu'r swm hwn mae'n debyg bob wythnos neu bob mis neu rywbeth i dri o blant, dim ond i gael pryd o fwyd. Nawr rwy'n gwybod pam roedd [y weithwraig banc bwyd] yn crybwyll hyn.

Roedd y pryderon a amlinellwyd yn [4.2](#) uchod hefyd yn effeithio ar barodrwydd pobl i ofyn am brydau ysgol am ddim. Heb wybodaeth glir nad ydy prydau ysgol am ddim yn gronfa gyhoeddus, gall pobl fod yn nerfus o gael mynediad atyn nhw. Gall hyn, a'r egwyddor hunangymorth a gwaith caled, atal pobl rhag mynegi eu hanghenion. Dywedodd un cyfranogwraig nad oedd wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim er ei bod yn dibynnu ar gymorth gan fanc bwyd, oherwydd byddai'n gwneud i'w phlant edrych yn wahanol i'w cyfoedion.

6.5 Mae plant y mae NRPF yn effeithio arnyn nhw'n cael eu gwahardd rhag cael mynediad i'r Grant Hanfodion Ysgol (SEG)

Canfu ein hymchwil, ym mhob awdurdod lleol, fod gwybodaeth i'r cyhoedd am feini prawf cynghorau ar gyfer cael mynediad i'r grant SEG yn dibynnu ar dderbyn naill ai prydau ysgol am ddim (ac eithrio'r rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim yn unig oherwydd eu bod wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad cyffredinol) neu dderbyn buddion a oedd yn arian cyhoeddus. Roedd llawer o gynghorau yn ei gwneud yn ofynnol i rieni gwblhau cais llwyddiannus am brydau ysgol am ddim cyn gwneud cais am y Grant SEG.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn eithrio plant ag amod NRPF o'r rhestr cymhwysedd ar eu gwefan, er bod y rhan fwyaf yn cynnwys derbyn cymorth lloches gan y Swyddfa Gartref a chynnwys bod yn blentyn sy'n derbyn gofal (a fyddai'n cynnwys Plant ar eu Pen eu Hunain) fel meini prawf cymhwyso ar gyfer y SEG.

Mae wyth awdurdod lleol yn nodi ar eu tudalen SEG ar y we bod y grant ar gael neu "efallai bod" y grant ar gael i blant yr effeithir arnyn nhw gan amod NRPF, er nad ydyn nhw'n cynnig yr un mynediad yn gyhoeddus mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim. Mae'r gwahanol ymagweddau at brydau ysgol am ddim a SEG ynghyd â'r berthynas agos rhwng y prosesau gwneud cais, yn aml yn arwain at wybodaeth ddryslyd neu anghyson i ymgeiswyr. Mae'r tudalennau SEG ar wefannau Cyngor Casnewydd a Chaerdydd, er enghraifft, yn nodi y gall plant sy'n cael eu heffeithio gan NRPF dderbyn y SEG, ond yna maen nhw'n rhestru'r budd-daliadau cymhwyso y mae'n rhaid i rieni o gartrefi incwm isel fod yn eu derbyn – sydd i gyd yn gronfeydd cyhoeddus. Mae Cyngor Ceredigion yn cynnig y grant SEG i ddisgyblion y mae NRPF yn effeithio arnyn nhw ac yn gwahodd ymgeiswyr i gwblhau cais am brydau ysgol am ddim, gan nodi y bydd y grant SEG yn cael ei ystyried ar yr un pryd. Yn y cyfamser, nid ydy'r dudalen we am brydau ysgol am ddim yn cynnwys NRPF fel maen prawf cymhwyso.

O ystyried y prosesau cyfyngol o ran gwneud cais i gael pryddau ysgol am ddim, mae'r cynghorau hynny sy'n dibynnu ar yr un cais am bryddau ysgol am ddim a'r SEG yn debygol o wahardd pobl ag amod NRPF drwy'r broses ymgeisio, hyd yn oed pan nad ydyn nhw'n bwriadu gwneud hynny. Dim ond tri chynghor (Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen) sy'n nodi ar eu tudalen SEG ar y we bod y grant ar gael neu y gallai fod ar gael i blant y mae NRPF yn effeithio arny'n nhw, a dydyn nhw ddim yn cyfyngu ar hyn drwy restru meini prawf budd-daliadau sy'n eithrio'r grŵp hwn, ac maen nhw hefyd yn darparu dolen gyswllt i wneud cais ar wahân ar gyfer gofyn am bryddau ysgol am ddim. (Doedd ni ddim yn gallu dilyn y broses ymgeisio lawn na phrofi'r meini prawf asesu).

Mae meini prawf a phrosesau ymgeisio a restrir ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol (SEG) yn amrywio o gyngor i gyngor. Mae diffyg eglurder yn y wybodaeth ar gyfer ymgeiswyr a dydy'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddim yn darparu manylion ynghylch sut y bydd pobl ag NRPF yn cael eu hasesu wrth wneud cais am y SEG. Does yr un ohonyn nhw'n nodi'n glir nad ydy'r SEG yn cael ei ddosbarthu fel cronfa gyhoeddus ac na fydd ei dderbyn yn effeithio ar y statws mewnfudo. Mae'r wybodaeth yn aml yn anghyson neu'n ddryslyd ac yn y rhan fwyaf o awdurdodau mae'n debygol o arwain at eithrio plant y mae amod NRPF yn effeithio arny'n nhw.

7. Myfyrwyr Rhyngwladol

Wrth wneud ein hymchwil, fe fuon ni'n siarad â myfyrwyr rhyngwladol a oedd yn defnyddio banciau bwyd lleol. Mae hwn yn grŵp sydd ddim yn cael ei ystyried yn aml wrth gynllunio i osgoi amddifadedd neu roi cymorth i bobl sydd ag amod NRPF, ac eto y mae'r heriau ariannol yn rhai enfawr iddyn nhw. Rydyn ni wedi cynnwys yr adran fer hon i dynnu sylw at rai o'r materion cyllid a gododd yn ystod ein sgysiau â nhw.

Mae rhai o'r canfyddiadau isod yn benodol i fyfyrwyr rhyngwladol, ac mae rhai yn fwy perthnasol i grwpiau eraill o bobl nad oes ganddyn nhw unrhyw hawl i arian cyhoeddus³. Mae'n bwysig nodi nad ydy holl fyfyrwyr rhyngwladol Cymru yn cael eu hunain mewn trafferthion ariannol. Fodd bynnag, mae'r materion a grybwyllwyd gan y myfyrwyr y buon ni'n siarad â nhw'n amlygu rhai camau syml y gellid eu cymryd i leihau'r costau diangen, ac mewn rhai achosion y cam fanteisio ariannol, sy'n gyrru rhai myfyrwyr i geisio cael mynediad at gymorth brys ac yn peryglu cael eu hatal rhag cwblhau eu haddysg. Dylai sicrhau bod myfyrwyr llai cyfoethog yn gallu cymryd rhan mewn addysg, ac atal cam fanteisio ar y myfyrwyr presennol, fod yn nodau craidd i brifysgolion a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd.

7.1 Myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru

Mae yna werth mawr i Gymru mewn sicrhau bod myfyrwyr rhyngwladol a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi yn ystod eu hastudiaethau. Mae Cymru yn gartref i 3.9 y cant o'r 381,365 o fyfyrwyr rhyngwladol blwyddyn gyntaf sydd yng Nghymru a Lloegr, ond maen nhw'n cyfrannu'n sylweddol at yr economi. Amcangyfrifir bod carfan 2021/22 o fyfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru wedi gwneud cyfraniad economaidd net o £1.26 biliwn i economi'r DU⁶⁰.

Cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr a'r teuluoedd a siaradodd â ni Gymru heb ddigon o wybodaeth ac i wynebu diffyg cymorth a phrinder tai. Roedden nhw'n canfod pethau wedi eu gor-brisio a bod y cyfleoedd gweithio'n gyfyngedig. Roedd incwm isel yn cael ei waethygu gan yr amod 'dim hawl i arian cyhoeddus - NRPF', tra bod y costau a wynebwyd ganddyn nhw wrth gyrraedd, trwy gydol eu cyrsiau, ac wrth orffen eu hastudiaethau, yn sylweddol, yn aml yn ymestyn i ddegau o filoedd ac yn llawer uwch na'u gallu i ennill.

Roedd ein hymchwil yn digwydd cyn y newidiadau diweddar i'r rheolau mewnfudo. Dim ond os ydyn nhw'n astudio ar gyrsiau ôl-radd neu gyrsiau gydag ysgoloriaethau a ariennir gan y llywodraeth y caniateir i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n cychwyn ar gyrsiau o 1 Ionawr 2024 ddod ag aelodau o'r teulu i'r DU. Dydyl'r newid hwn ddim yn effeithio ar fyfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau cyn i rhain gael eu gweithredu ac sydd eisoes â

³ Roedd mwyafrif y myfyrwyr rhyngwladol y buon yn siarad â nhw yn wreiddiol o Nigeria. Dydyn ni ddim yn honni bod hwn yn sampl gynrychioliadol o'r myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru ac efallai y bydd materion eraill yn effeithio ar grwpiau eraill o fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU sy'n dod i astudio yng Nghymru. (Er enghraifft, nid oedd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr y buon yn siarad â nhw yn cael anhawster i gyfathrebu yn Saesneg.)

teuluoedd yn y DU. Dydy myfyrwyr ddim bellach yn gallu newid i fisas llwybr gwaith nes byddan nhw wedi cwblhau eu cwrs.

8. Canfyddiadau: Myfyrwyr Rhyngwladol

8.1 Mae myfyrwyr rhyngwladol yn wynebu costau uchel ac annisgwyl allai olygu y bydd rhai'n cael eu gyrru i fod mewn angen

Rydyn ni'n gwario ar bethau na wnaethon nhw ei gynnwys yn y gyllideb.

Cyfranogwr ar y prosiect

Roedd costau astudio yn y DU yn amlygu ei hun fel prif achos tlodi ac amddifadedd ymhlith myfyrwyr rhyngwladol. Fel y nodwyd yn 7.1 uchod, mae cyfraniad ariannol myfyrwyr rhyngwladol i economi'r DU yn un sylweddol. Yn gynnwysedig yn y cyfanswm hwn roedd y ffioedd dysgu, costau byw, ac arian i'w wario gan berthnasau a ffrindiau wrth ymweld â'r DU. Roedd llawer o'r costau hyn wedi eu rhagweld a'u cynllunio ar gyfer y myfyrwyr y siaradwyd â nhw, ond roedd rhai, megis cais am dalu rhent ymlaen llaw (gweler [8.2](#) ac [8.3](#) isod) yn sioc annisgwyl ac na ellid ei hosgoi. Daw'r costau ychwanegol hyn ar ben y gwariant ariannol enfawr sydd ei angen i ddod i mewn i'r DU a chofrestru ar gwrs.

Gall y swm o arian y disgwylir i fyfyrwyr ei dalu gyda'i gilydd, cyn derbyn yr eitem neu'r gwasanaeth yr oedden nhw'n talu amdano fod yn eithafol, ac weithiau mae'n gyfrifol am ymestyn teuluoedd y tu hwnt i'w ffiniau ariannol.

Mae'r costau roedd myfyrwyr wedi cynllunio ar eu cyfer yn cynnwys:

- ffioedd dysgu – hyd at £25,000 y flwyddyn ar gyfer cyrsiau ôl-radd
- ar gyfer y myfyriwr ac ar gyfer pob aelod o'r teulu sy'n ymuno ag ef/hi yn y DU
- gordal gofal iechyd (rhaid talu'r ffi ar gyfer pob blwyddyn mewn 'lwmp swm' yn ystod y broses o wneud cais am fisa) - £776 y flwyddyn i'r myfyriwr ac am bob aelod o'r teulu sy'n ymuno â nhw yn y DU, gan gynnwys plant.

Gall rhai o'r costau hyn fod yn cael eu hail adrodd, er enghraifft ar ôl cwblhau gradd a symud i gwrs astudio arall neu newid i gategori arall o fisa.

Yn ogystal â ffioedd a thaliadau, mae angen i fyfyrwyr sy'n cyrraedd y DU dalu costau teithio ac adleoli, ynghyd ag unrhyw offer neu adnoddau sydd eu hangen arny'n nhw ar gyfer eu cwrs. Efallai y bydd angen iddyn nhw brynu eitemau hanfodol na allan nhw gludo gyda nhw, megis offer cegin, dodrefn, dillad ychwanegol, a threuliau ysgol i blant.

Mae'r costau uchod yn cael eu pentyrru i'r ychydig fisoedd cyntaf ar ôl cyrraedd, cyn cyrraedd, neu wrth adnewyddu neu newid fisa, ac felly maen nhw fwy o broblem am eu bod yn gorfod cael eu talu o fewn cyfnod byr o amser. Mae gofal plant, rhent a chostau byw yn gostau parhaus. Maen nhw'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr feddu ar neu ennill digon o arian i gwrdd â nhw am holl gyfnod eu harhosiad yn y DU.

Ymhlith y prif gostau ychwanegol a nodwyd gan fyfyrwyr:

- lefelau uchel o rent – gorfodwyd rhai i gymryd llety dros dro neu lety gwyliau am rent uwch na'r cyfartaledd ac ymddengys fod rhai rhenti'n cynyddu oherwydd cystadleuaeth am lety prin (gweler [8.3](#))
- y 'lwmp swm' hawliwyd ar gyfer rhent ymlaen llaw – dywedodd rhai myfyrwyr y gofynnwyd iddyn nhw dalu am chwe mis neu fwy o rent ymlaen llaw (gweler [8.3](#))
- gorfod talu i gael gwarantydd rhent

Disgrifiodd un cyfranogwraig, oedd yn ddibynnydd i fyfyrwr graddedig, y costau cynyddol yr oedd hi a'i gŵr wedi'u hwynebu'n ddiweddar:

... roedd y taliadau fisa ... hyd yn oed yn fwy anodd... Fy ngŵr ... maen nhw'n fodlon rhoi pum mlynedd o wyliau iddo... Mae'n mynd i dalu ei ffi fisa, sef £7700⁴. Doleri...

...Felly, i ni gyda theulu o bump, maen nhw'n rhoi fisa pum mlynedd i fy ngŵr, mae pob un ohonon ni'n mynd i orfod talu bron i £5,000⁵, gan wneud hynny tua 20 rhywbeth [o filoedd o bunnoedd]... Am y gordal iechyd yn unig. ...Dim ond ar gyfer y gordal iechyd a hyd yn oed heb gynnwys y ffioedd fisa. Mae disgwyl i un cartref gyfrannu'r holl arian yna...

...Felly os mai dyna ydy eich incwm blynyddol a'ch bod yn didynnu'r dreth incwm, rhaid i chi hefyd ddidynnu'r biliau, gorfod mynd at y meddyg, beth sydd yna ar ôl gyda chi fel teulu i fyw? Mae yna argyfwng costau byw ar hyn o bryd. Dim ond yr ôl-radd yn unig a wnaethon ni. Wnaethon ni dalu dros £10,800 o bunnoedd. Ar ei union. Faint gymer hi i ni godi hynny? £10,800?...

...Ar hyn o bryd, cyflog fy ngŵr sy'n talu am y rhent, y biliau...roedd yn rhaid torri lawr...

... Ar ddiwedd y mis yn unig, dwi'n meddwl bod ei gyflog tua £1000... Mae'r rhent yn £600, yna erbyn i ni ychwanegu'r cyfleustodau ... mae hynny tua £350 i 600. Wyddoch chi faint ydy hynny'n barod?

Roedd y myfyrwyr y siaradwyd â nhw yn aml mewn gwaith, er eu bod wedi'u cyfyngu gan gyfyngiadau fisa i 20 awr yr wythnos o gyflogaeth yn ystod y tymor. Roedd cynnal y gost o aros yn y DU yn eu gadael heb fawr ddim i'w wario ar gostau dyddiol. Eglurodd un cyfranogwr ei bod yn gwario ar "bethau angenrheidiol" yn unig. Soniodd am fethu anfon ei merch ar deithiau ysgol, i brynu gwisg ysgol ac esgidiau, a gorfod cadw ei llygaid ar y mesurydd pryd bynnag y byddai'n defnyddio nwy. Roedd llawer o'i ffrindiau'n defnyddio banciau bwyd.

⁴ Wnaethon ddim nodi at ba fisa roedd y cyfeiriad hwn.

⁵ Cost y gordal gofal iechyd i fyfyrwyr ydy £776 y flwyddyn, ar gyfer pob myfyriwr a phob un o'u dibynnyddion. Byddai hyn yn gwneud cyfanswm o £19,400 i deulu o bump ar fisa pum mlynedd. Y gordal gofal iechyd ar gyfer Fisa Gweithiwr Medrus fel arfer ydy £1,035 y flwyddyn (gweler <https://www.gov.uk/skilled-worker-visa/how-much-it-costs>).

Soniodd y cyfranogwyr hefyd am yr anhawster o ddod o hyd i waith i'w helpu i gynnal nhw eu hunain a'u teuluoedd. Rydyn ni'n ystyried y mater hwn ymhellach yn [8.8](#).

Pwysleisiwn fod y myfyrwyr y buon ni'n siarad â nhw wedi cydymffurfio â gofynion ariannol eu fisa. Roedden nhw wedi cyrraedd y DU gyda'r arian angenrheidiol i gwblhau eu cwrs a gyda'r disgwyliad y bydden nhw'n gallu cynnal eu hunain a'u teuluoedd yn ariannol. Fodd bynnag, roedd y costau uchel a dalwyd ganddyn nhw wrth gyrraedd ac wrth adnewyddu eu fisas, ynghyd â diffyg rhagrybudd ynghylch costau cudd ac arferion anghyfarwydd, wedi eu gwrthio i sefyllfa ariannol hynod o ansicr. Mae gwrth-ddweud amlwg rhwng y disgwyliad na ddylai myfyrwyr rhyngwladol ddibynnu ar arian cyhoeddus a'r methiant i'w hamddiffyn rhag beichiau ariannol ychwanegol a diangen sydd mewn perygl o'u gwrthio i sefyllfa lle na allan nhw gynnal eu hunain yn ariannol.

8.2 Mae myfyrwyr rhyngwladol yn wynebu heriau mawr wrth ddod o hyd i lety, yn enwedig ar gyfer teuluoedd

Dydy'r gofynion llety ddim yn ffafrio mudwyr na myfyrwyr mudol.

Cyfranogwr ar y prosiect

Soniodd y cyfranogwyr am y siom nad oedd eu prifysgol yn darparu llety iddyn nhw eu hunain na'u teuluoedd nac yn eu cynorthwyo i ddod o hyd i lety. Er bod rhai prifysgolion wedi pwysleisio i ddarparu fyfyrwyr am yr angen i ddod i'r DU a dod o hyd i lety, cyn iddyn nhw anfon am eu teuluoedd, roedd llawer yn teimlo na allan nhw fod wedi gwneud hyn. Dywedodd un cyfranogwr y dylai'r brifysgol "sylweddoli na allwn i adael fy nheulu ar ôl".

Roedd rhai cyfranogwyr wedi cyrraedd y DU i ganfod nad oedden nhw'n gallu dod o hyd i lety. Yn y cyfamser, roedd yr amser a gymerodd hi i ddod o hyd i lety yn gwneud i'r cyfarwyddyd i adael eu teuluoedd adref yn teimlo'n fwy afrealistig fyth. Dywedodd un cyfranogwr ei bod hi "wedi dod yma gyda disgwyliad enfawr o'r DU" a'i bod wedi disgwyl dod o hyd i lety yn ystod y pythefnos cyntaf. Mewn gwirionedd, roedd wedi mynychu tuag wyth i ddeg o ymweliadau cyn iddi allu sicrhau tŷ ac yna doedd hi ddim yn gallu darparu slip cyflog i sicrhau'r denantiaeth.

Soniodd y cyfranogwyr am yr anawsterau canlynol wrth ddod o hyd i lety a'i sicrhau:

- ffocws prifysgol ar lety un preswlydd, er bod llawer o fyfyrwyr rhyngwladol yn byw gyda'u teuluoedd
- anallu i ddod o hyd i lety addas
- landlordiaid yn amharod i rentu eiddo i deuluoedd â phlant
- landlordiaid yn gofyn am slipiau cyflog fel tystiolaeth o'r gallu i dalu rhent, ond does gan fyfyrwyr ddim slipiau cyflog pan fyddan nhw'n cyrraedd y DU am y tro cyntaf
- rhenti uchel, 'bidio' am y rhent, dywedodd rhai fod gan rai landlordiaid bolisi o ofyn am rent 6 mis ymlaen llaw
- dod o hyd i warantwr rhent a chost talu am un

- yr anhawster o ymweld â llety cyn cael eich cofrestru yn y brifysgol – bu'n rhaid i gyfranogwyr gyrraedd y DU heb unrhyw le o gwbl i aros
- myfyrwyr sy'n defnyddio llety Airbnb pan na allan nhw ddod o hyd i dai i'w rhentu, sy'n costio hyd at deirgwaith y gost iddyn nhw.

Nodwyd fod gorfod darparu gwarantwr yn absenoldeb tystiolaeth slip cyflog fel anhawster mawr i fyfyrwyr, fel rhwystr i ddod o hyd i lety ac fel cost ariannol. Yn absenoldeb gwarantwr, dywedodd rhai fod landlordiaid yn gofyn am symiau mawr o rent ymlaen llaw. Pwysleisiodd pawb bwysigrwydd cael gwarantwr:

Roedd yn rhaid i'n ffrind dalu £250 cyn cael gwarantwr.

Maen nhw'n gofyn am warantwr o'r DU.

Mae'n anodd dod o hyd i warantwr.

Dylai fod yna undeb o warantwyr i sefyll dros fyfyrwyr rhyngwladol.

Felly, rwy'n meddwl mai'r lwc gefais i oedd, roedd gennyn ni warantwr. Felly, os nad oes gennych chi hyn, *dylai fod gennych warantwr sydd â thŷ yn y DU eisoes, perchennog tŷ yn y DU a fy chwaer a'r gŵr, roedden* nhw'n berchnogion tai, felly roedd yn rhaid iddyn nhw dystio drosion ni pan ddaethon ni i Gymru, er mwyn i ni *gael y tŷ presennol hwn lle rydyn ni'n byw*. Felly, fe wnaeth hynny bethau'n llawer haws i ni.

Roedd darparu cynllun gwarantwr ar gost isel yn ateb a gynigwyd gan nifer o gyfranogwyr. Doedd myfyrwyr ddim bob amser yn ymwybodol o drefn gwarantwyr fforddiadwy nac ychwaith oedden nhw'n cael eu cynnig gan eu prifysgol.

Pan oedd pobl yn llwyddo i gael llety, roedd weithiau o ansawdd isel. Canfu rhai nad oedd landlordiaid yn ymateb neu eu bod yn riportio cyflyrau a oedd yn effeithio ar lesiant emosiynol neu iechyd corfforol eu plant:

Wnes i symud i fy nghartref presennol o eiddo arall oherwydd gormod o lwydni, achosodd asthma yn fy mabi ac ar un o fy mhlant eraill. Wnaeth y landlord ddim ei drwsio.

Dychmygwch ddod i mewn a does gennych chi ddim to uwch eich pen, a'r peth cyntaf, rydych chi'n meddwl am eich plant. Ydyn nhw'n mynd i allu ymdopi? Sut *fydden nhw'n ymdopi â'r sefyllfa hon?* Wnaethon ni ganfod hynny'n syth ... oherwydd doedd fy mhlant ddim yn hapus. Roedden nhw'n sylweddoli nad oedd fan hyn yn edrych fel cartref, felly doedden nhw ddim yn hapus. Rydyn ni newydd symud i mewn. Roedden ni'n cysgu ar y llawr moel.

Mae'r brys i ddod o hyd i rywle i fyw a'r diffyg llety addas a fforddiadwy i deuluoedd yn rhoi myfyrwyr rhyngwladol a'u teuluoedd mewn perygl o gael eu hecsbloetio gan landlordiaid diegwyddor neu rai heb eu rheoleiddio.

8.3 Mae diffyg llety addas yn effeithio'n ddifrifol ar allu myfyrwyr rhyngwladol i gynnal eu hunain yn ariannol

Dyna ein hegwyddor ni, fel byddai fy mam-yng-nghyfraith yn ei ddweud. Cael eich lloches wedi ei sefydlu. Hyd yn oed os nad oes gennych chi fwyd, fe allwch chi gael *bara a dŵr a byddwch chi'n gyfforddus. Gallwch chi fyw ar hynny, ond os nad oes gennych chi loches, eich to uwch eich pen, allwch chi ddim byth gael heddwch. Na allwch byth. Dyna ein hegwyddor. Lloches sy'n dod gyntaf. Eich lloches sy'n dod gyntaf.*

Mae llawer o deuluoedd yn cael problemau, problemau ariannol.

Cyfrannwr i'r prosiect

Dywedodd rhai myfyrwyr y buon ni'n siarad â nhw mai'r diffyg llety addas ar ôl cyrraedd oedd "y penbleth mwyaf" iddyn nhw oherwydd yr effaith a gafodd hynny arnyn nhw a'u teuluoedd. Fe ddwedon nhw fod y chwilio am lety yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf ar ôl cyrraedd wedi cael effaith sylweddol ar eu gallu i barhau i gynnal eu hunain, gan ddefnyddio arian yr oedden nhw wedi'i neilltuo ar gyfer cynnal a chadw parhaus. Cafodd hyn effaith arbennig ar deuluoedd oedd â phlant, gan ei bod yn fwy anodd cael llety ar gyfer teulu. Teimlai sawl un y dylai prifysgolion ddarparu llety teuluol i fyfyrwyr ei rentu.

Dywedodd un cyfranogwr a wirfoddolodd mewn banc bwyd y byddai myfyrwyr yn aml yn defnyddio'r banc bwyd am y tri mis cyntaf ar ôl cyrraedd Cymru oherwydd eu bod wedi cael eu gorfodi i wario cymaint o arian i sicrhau llety. Pwysleisiodd yr un cyfranogwr fod angen i brifysgolion ddarparu llety i deuluoedd, hyd yn oed am gyfnod dros dro, i helpu myfyrwyr i setlo a'u hamddiffyn rhag cam fanteisio ariannol. I brifysgolion, mae buddsoddi adnoddau a chyfalaf yn y llety myfyrwyr rhyngwladol yn y modd hwn yn gwneud synnwyr ariannol cadarn.

Esboniodd rhai, oherwydd diffyg llety ar rent, eu bod wedi cael eu gorfodi i aros mewn gwestai neu i gymryd llety gwyliau ar gost uchel iawn:

Pan gyrhaeddais i gyntaf, roedd yn rhaid i mi wario £900 y mis ar Airbnb cyn dod o hyd i lety.

...roeddwn i eisoes wedi talu pythefnos yn ôl £800 yr wythnos am Airbnb.

Dywedodd un cyfranogwr ei fod wedi talu £1,200 y mis am rannu fflat. Disgrifiodd un arall y straen, y gystadleuaeth, a'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â cheisio dod o hyd i lety:

*...Ac yna roedden ni'n wynebu'r costau llety. Roedden ni'n meddwl, pan fydden ni'n cyrraedd y DU, ein bod yn mynd i gael tŷ, talu'r rhent ac bydden ni wedi setlo. Ond pan ddaethon ni yma, fe gymerodd dri mis a mwy i ni gael tŷ. Rwy'n credu mai dyna oedd eiliad waethaf ein bywydau oherwydd, am dri mis, allai'r plant ddim mynd i'r ysgol oherwydd nad oedden ni ddim wedi setlo. Rydyn ni'n byw gyda fy chwaer ym Mryste. Roedden ni'n chwilio am lety yma ac acw, a methu cael credu *dim*. ... pan oeddech *chi'n cael tŷ ac* roedd fel bidio gydag ymgeiswyr eraill. Cyrhaeddodd y pwynt eich bod yn cael eich gorfodi dderbyn, os ydy'r tŷ yn golygu £1000 mewn taliadau, rydych yn derbyn, iawn, mi gallaf gynnig £1200 i chi ac yna mae cwsmer arall yn dweud y gallai roi £1500 i chi. Felly'r cynnig uchaf sy'n cael y tŷ. ...beth sy'n*

digwydd? Ac yna, roedd angen geirda arnon ni. Roedd angen tri mis o sliplau cyflog arnon ni. A ninnau ddim ond newydd gyrraedd y wlad.

8.4 Gall gofynion ariannol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol eu heithrio o gymorth hanfodol

Amlygodd rhai cyfranogwyr fod diffyg dealltwriaeth o'r gofynion ariannol ar gyfer fisas myfyrwyr rhyngwladol yn arwain at iddyn gael eu gwrthod rhag cael cymorth hanfodol ar gyfnodau o angen. O dan y rheolau fisa, cyn gwneud cais am fisa i ddod i'r DU fel myfyrwyr, rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddyn nhw'r canlynol yn eu cyfrifon banc am 28 diwrnod yn olynol, gyda'r disgwyliad y byddan nhw'n cadw'r arian hwn i'w ddefnyddio ar ôl iddyn nhw gyrraedd y DU:

- digon o arian (ffioedd dysgu) i dalu am eu cwrs am un flwyddyn academiaidd
- digon o arian i gynnal eu hunain am naw mis y flwyddyn academiaidd (£1,023 y mis ar gyfer cyrsiau yng Nghymru)
- £680 y mis am naw mis y flwyddyn academiaidd ar gyfer pob un dibynnydd (partner neu blentyn)

Mae'r gofynion hyn yn golygu bod disgwyl i fyfyrwyr gael degau o filoedd o bunnoedd yn eu cyfrif banc wrth gyrraedd i gychwyn ar eu hastudiaethau. Er enghraifft, byddai'n rhaid i fyfyrwr rhyngwladol gyda phartner a dau o blant sy'n cyrraedd yn 2024 i astudio MSc Rheoli Busnes ym Mhrifysgol Caerdydd, gael cyfanswm o £52,267 yn eu cyfrif banc (£27,567 mewn ffioedd cynhaliaeth a £27,200 mewn ffioedd dysgu – llai blaendal o £2,500 a dalwyd ymlaen llaw i sicrhau'r cwrs).

Mae ein sgwrsiau gyda myfyrwyr rhyngwladol yn dangos bod costau uchel ac annisgwyl yn arwain at lawer ohonyn nhw'n gwario llawer mwy o'u cronfeydd cynnal a chadw nag a ragwelwyd yn ystod y misoedd cyntaf ar ôl iddyn nhw gyrraedd Cymru. Gall hyn eu gadael mewn sefyllfa ariannol hynod o ansicr gan ffael â fforddio hanfodion sylfaenol, ond gydag arian yn eu cyfrifon na allan nhw ei gyffwrdd gan ei fod wedi'i glustnodi ar gyfer ffioedd cwrs. Byddai gwario'r arian hwn yn eu gadael yn methu â thalu am hyfforddiant ac yn torri amodau'r fisa, gan arwain at gollu eu lle yn y brifysgol a'r posibilrwydd o gael eu halltudio.

Dywedodd myfyrwyr a sefydliadau cefnogi, oherwydd eu bod yn gorfod cadw ffioedd dysgu yn eu cyfrif, nad oedd myfyrwyr yn aml yn gallu cael gafael ar gymorth yr oedden nhw fel arall yn gymwys i'w dderbyn hyd yn oed gyda chyfyngiad NRPf. Mae asesiadau ariannol fel arfer wedi'u hanelu at y rhagdybiaeth y dylai pobl dderbyn incwm rheolaidd yn hytrach na byw ar 'lwmp swm' a ddefnyddir dros gyfnod hir o amser. Roedd llawer o fyfyrwyr, a oedd yn ceisio cymorth, wedi cyrraedd gyda'r hyn roedden nhw'n gredu oedd yn ddigon o arian, ar ôl bodloni gofynion ariannol eu fisa. Fodd bynnag, roedden nhw wedi gwario symiau mawr ar ddod o hyd i lety a'i neilltuo.

Hyd yn oed pan oedden nhw wedi cael cymorth i wneud cais am gymorth, megis cael prydau ysgol am ddim neu gymorth gan fanciau bwyd, dywedodd rhai nad oedden nhw'n gallu pasio asesiadau ariannol. Mae rhai myfyrwyr yn gyndyn o egluro eu sefyllfa yn llawn, rhag ofn y byddan nhw'n cael eu cyhuddo o dorri amodau'r fisa trwy geisio

cefnogaeth ac yn cael eu riportio i'r Swyddfa Gartref. Roedd y profiad canlynol yn berthnasol i fyfyrwr rhyngwladol a oedd wedi cyngori cyd-fyfyrwr i geisio cymorth:

[Mae angen i chi] gadw'r cynilion ar gyfer y ffioedd dysgu a'r arian rydych chi wedi'i gynilo ar gyfer eich rhent ond [does gennych bellach] ddim ar ôl ar gyfer cael bwyd. Ar y pwynt hwn, mae'r landlordiaid yn gofyn am 6 mis o rent ymlaen llaw. Mae *ganddo dri o blant ac mae'n fyfyrwr... Gofynnodd y [staff cymorth] iddo a oedd arian ganddo a dywedodd 'oes, oes', oherwydd pan fyddwch chi'n dod yma mae'n rhaid i chi ddangos tystiolaeth fod gennych chi arian, ac os nad oes gennych chi'r arian hwnnw, byddwch yn cael eich alltudio. Os nad oes gennych chi fwyd nac arian yna rydych chi wedi twyllo'r Swyddfa Gartref ac fe fyddwch chi'n cael eich alltudio.*

Pan wnaeth y cyfranogwr uchod ddarganfod fod cymorth wedi'i wrthod i'r dyn hwn, fe siaradodd hi ag ef unwaith eto:

